Adnabod y Seiliau

Cynnwys

1. Cyflwyniad 2
2. TGAU 4
3. Siarad yn ddigymell 7
4. Gramadeg 10
5. Geirfa 21
6. Rhuglder 26
7. Rhyngweithio 28
8. Casgliadau a Thrafodaeth 30

Llyfryddiaeth 34

Atodiad 1: Taflen gofnodi enghreifftiol ar gyfer Uned 1 arholiad TGAU 36

Atodiad 2: Deunydd sbardun enghreifftiol ar gyfer Uned 2 arholiad TGAU 37

Atodiad 3: Mat help gyfer Uned 1 arholiad TGAU 38

Atodiad 4: Graddfeydd y CEFR 39

Atodiad 5: Cynlluniau Marcio Unedau 1 a 2 TGAU, Amcan Asesu Siarad 40

Atodiad 6: Graddfeydd y CEFR a ddefnyddiwyd 41

- **Cywirdeb Gramadegol** 41
- **Ystod Geirfa** 42
- **Rheolaeth dros Eirfa** 42
- **Rhuglder** 43
- **Rhyngweithio** 44

Atodiad 7: Trawsgrifiadau o sgyrsiau enghreifftiol yn ymateb i'r sbardunau 45

Atodiad 8: Geirfa sy'n codi yn y sgyrsiau enghreifftiol 56

1. Cyflwyniad

1.1. Mae'r canlynol yn cyflwyno dadansoddiad o seiliau ieithyddol cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith yn nhermau sector Cymraeg i Oedolion. Mae'n seiliedig ar ymchwil pen desg i'r ddogfennaeth sydd ar gael ar ddarpariaeth addysgu Cymraeg i siaradwyr ail iaith yn y sector addysg statudol (Cyfnod Allweddol 4, sef TGAU, yn benodol) a'r sector Cymraeg i Oedolion, yn arbennig darpariaeth y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol[1]. Diben yr ymchwil yw ystyried beth yw hyfedredd cyfathrebu llafar Cymraeg dysgwyr sydd wedi cyflawni TGAU mewn Cymraeg Ail Iaith *mewn theori* a cheisio lleoli hynny o fewn darpariaeth Cymraeg i Oedolion. Mae darpariaeth Cymraeg i Oedolion wedi'i pherthynu â Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop (CEFR) ar gyfer ieithoedd, felly mae'r ymchwil hon yn defnyddio'r CEFR yn helaeth, ond nid yn unig, ar gyfer y dadansoddiad.

1.2. Mae'r ymchwil hon yn rhagarweiniad i astudiaeth ddilynol yn holi ynghylch hyfedredd cyfathrebu llafar y grŵp hwn o ddysgwyr. Eto bydd hyn yn defnyddio'r CEFR fel arf dadansoddol, er mwyn lleoli'r dysgwyr o fewn darpariaeth y Ganolfan.

1.3. Nod dwy ran yr ymchwil gyda'i gilydd yw cynnig cipolwg o hyfedredd cyfathrebu llafar Cymraeg dysgwyr ar ddiwedd eu cyfnod mewn addysg orfodol. Bwriad y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ydy llunio darpariaeth ar gyfer y garfan sylweddol o ddysgwyr sy'n cyflawni TGAU Cymraeg Ail Iaith bob blwyddyn er mwyn eu galluogi i barhau i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg er nad ydynt yn astudio'r Gymraeg fel pwnc fel y cyfryw. Er mwyn gwneud hynny, mae angen i'r Ganolfan ddeall yn well beth yw'r sylfaen o sgiliau a chymwyseddau maent wedi'u caffael eisoes ar eu taith drwy addysg. Y nod ydy datblygu'r sgiliau a'r cymwyseddau hyn, ac nid dechrau o'r dechrau.

1.4. Canolbwyntir ar sgiliau llafaredd dysgwyr yn unig yn yr astudiaeth yn ei chyfanrwydd. Mae darpariaeth Cymraeg i Oedolion yn canolbwyntio'n bennaf ar greu siaradwyr Cymraeg. Yn ogystal, mae'r ymchwil wedi'i hysgogi gan strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg o greu miliwn o siaradwyr erbyn 2050 (Llywodraeth Cymru, 2017). Er bod sgiliau llythrennedd yn hollbwysig mewn cymdeithas fodern, ystyrir mai sgiliau llafaredd ydy'r prif sylfaen i adeiladu arno.

1.5. Pwysleisir nad cymharu cyrhaeddiad dysgwyr o fewn y ddau sector yw'r bwriad, nac ychwaith gynnig barn ynghylch manteision ac anfanteision addysgeg y naill sector na'r llall. Yn hytrach, y nod yw deall yn well beth yw anghenion dysgwyr sydd wedi cyflawni TGAU wrth iddynt bontio i'r sector Cymraeg i Oedolion. Fel gwelir yn ddiweddarach yn yr adroddiad, mae cynnig barn ynghylch hyfedredd cyfathrebu yn fater dyrys, fel y mae addysgu a dysgu ail iaith yn eu cyfanrwydd. Mae'r hyn y dewisir ei addysgu neu ei asesu yn ddibynnol ar nifer o ffactorau, gan gynnwys ystyriaethau cyd-destunol, anghenion dysgwyr a chapasiti sefydliadol, i enwi ond rhai. Felly mae'r hyn a gyflwynir yn yr adroddiad hwn wedi'i lywio a'i liwio gan gyd-destun penodol Cymraeg i Oedolion a'r uchelgais i deilwra darpariaeth i garfan benodol o ddysgwyr.

Nodyn ar ddull

1.6. Dull archwiliadol a ddefnyddiwyd ar gyfer yr astudiaeth hon. Mae gofynion yr ymchwil yn benodol ac yn deillio o gyd-destun arbennig addysgu'r Gymraeg yng Nghymru. Fodd bynnag, mae cwmpas yr hyn y gellid canolbwyntio arno yn eang, felly cadwyd rhai nodau sylfaenol mewn cof wrth fynd ati i ddadansoddi a dehongli. Yn benodol, cadwyd mewn cof yr angen i gynnig gwybodaeth ymarferol y gellir ei defnyddio i lywio'r gwaith o lunio darpariaeth dysgu ail iaith, a hynny o fewn

[1] Defnyddir y term 'Cymraeg i Oedolion' o fewn yr adroddiad hwn i gyfeirio fel rheol at ddarpariaeth y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ynghyd ag asesiadau CBAC. Nodir bod y sector mewn difrif yn ehangach na hynny, ac yn cynnwys darparwyr eraill, e.e. *Say Something in Welsh* a *Duolingo*.

cyd-destun penodol Cymraeg i Oedolion.

1.7. At y diben hwnnw, archwiliwyd y data mewn dwy brif ffordd. Yn gyntaf, cynigir proffil bras o elfennau ieithyddol penodol y mae dysgwyr yn debygol o fod wedi'u caffael. Mae'r trywydd hwn yn bennaf yn canolbwyntio ar yr elfennau ieithyddol penodol sydd i'w cael o fewn deunyddiau paratoi ar gyfer arholiad TGAU, ac yn hynny o beth mae'n ymdebygu i ryw raddau i ddadansoddiad ar sail corpws. Fodd bynnag, nid yw ystyriaeth o elfennau ieithyddol penodol yn rhoi'r holl wybodaeth sy'n debygol o fod yn ddefnyddiol. Ni all dadansoddiad o'r fath roi syniad o ystyriaethau mwy haniaethol, yn arbennig gallu dysgwyr i roi cymwyseddau ieithyddol ar waith ar lafar. Am fod darpariaeth Cymraeg i Oedolion wedi'i pherthynu â Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop (CEFR), barnwyd y byddai'n briodol defnyddio'r Fframwaith fel ail drywydd archwilio. Ystyriwyd y lefel ar y CEFR y mae TGAU Cymraeg Ail Iaith yn ymgyrraedd ato, hynny yw, ble ar y CEFR y gellid lleoli ymgeisydd TGAU pe bai'n cyflawni'r disgwyliadau yn ôl y dehongliad o'r dystiolaeth dan sylw. Mae'r dadansoddiad hwn yn seiliedig yn bennaf ar enghreifftiau o sgyrsiau grŵp yn ymateb i dasgau arholiad TGAU Cymraeg Ail Iaith sydd ar gael ar wefan CBAC (rhestrir yr holl ffynonellau yn 2.2 isod). Cynigir peth gwybodaeth bellach am y CEFR yma, ynghyd â sut defnyddiwyd y Fframwaith ar gyfer y dadansoddiad.

Lleoli ar y CEFR

1.8. Sylfaen y CEFR yw nifer o raddfeydd mewn perthynas â gwahanol gymwyseddau cyfathrebu, a gweithgareddau a strategaethau iaith (gweler Atodiad 4). Er enghraifft, o dan bennawd Gweithgareddau Rhyngweithio Llafar, mae graddfa ar gyfer Deall Cyd-sgwrsiwr ac un arall ar gyfer Cyfnewid Gwybodaeth, i enwi ond rhai. Mae'r graddfeydd hyn wedi'u rhannu'n saith lefel adnabyddus y CEFR – Cyn-A1, A1, A2, B1, B2, C1 ac C2, a disgrifyddion gwahanol ar gyfer pob lefel[2]. Cyfeirir at y disgrifyddion fel rhai 'Can-do'. Hynny yw, maent yn disgrifio beth mae'r dysgwr yn gallu'i wneud â'r iaith. Mae gormod o lawer o raddfeydd i ddefnyddio pob un, felly wrth ddylunio cwricwlwm neu asesiad sy'n lleoli dysgwyr ar y CEFR, rhaid dewis y graddfeydd mwyaf perthnasol. Pwysleisia'r CEFR y dylid gwneud hynny ar sail ystyriaeth o anghenion y dysgwr (gweler CEFR:2020 adran 2.9). Ar gyfer yr astudiaeth hon, penderfynwyd canolbwyntio ar bedair agwedd o iaith a chyfathrebu, sef gramadeg, geirfa, rhuglder a rhyngweithio. Dewiswyd y rhain yn benodol i gwmpasu'r prif gymwyseddau ieithyddol a addysgir yn narpariaeth Cymraeg i Oedolion, a hefyd i asesu sgiliau llafaredd cyffredinol y dysgwyr am mai dyma brif ffocws yr ymchwil.

1.9. Trafodir y graddfeydd a ddefnyddiwyd ar gyfer y meini prawf unigol hyn o dan yr adrannau perthnasol.

1.10. Noder bod dau neu dri o siaradwyr yn cymryd rhan ym mhob un o'r sgyrsiau enghreifftiol a ddefnyddir ar gyfer y dadansoddiad. Nid oes digon o destun ym mhob trafodaeth er mwyn lleoli pob un siaradwr unigol ar y CEFR. Yn ogystal, am mai recordiadau sain ydyn nhw, nid yw bob amser yn bosib gwahaniaethu rhwng y gwahanol siaradwyr ar sail eu lleisiau yn unig. Felly barn gyffredinol a gynigir am bob un recordiad yn ei gyfanrwydd, ac nid barn ar gyfer siaradwyr unigol.

1.11. Mae'r dadansoddiadau sy'n dilyn y trywydd hwn yn ddisgrifiadol. Mae llawlyfr y CEFR ar leoli arholiadau iaith ar y Fframwaith (Cyngor Ewrop, 2009) yn amlinellu gweithdrefn benodol i'w dilyn, sy'n cynnwys, er enghraifft, asesiadau gan arbenigwyr amrywiol, gan eu cyfuno i gynnig data meintiol. Dyma a wnaed, er enghraifft, ar gyfer yr astudiaeth i leoli arholiadau Cymraeg i Oedolion ar y CEFR (Green, 2014), a hefyd yn yr astudiaeth i ddisgrifio cymwysterau TGAU Ieithoedd Modern

[2] Mae'r CEFR hefyd yn cynnig lefelau ychwanegol (*plus levels*) dewisol, sef A1+, B1+ a B2+. Yn achos rhai sefydliadau, ac yn dibynnu ar y cyd-destun ieithyddol ac anghenion y dysgwr, gall fod yn ddefnyddiol rhannu'r lefelau ehangach yn is-lefelau er mwyn dehongli'n fwy manwl.

Cyfoes yn nhermau'r CEFR (Curcin & Black, 2019). Nid oedd hyn yn bosib o fewn cwmpas y rhan hon o'r ymchwil, felly i wrthbwyso hyn mae cryn bwyso a mesur a dehongli ystyr disgrifyddion y CEFR, gan ddefnyddio enghreifftiau o'r data i gyfiawnhau. Pwysleisir mai dangosol yw'r dehongliad.

Elfennau ieithyddol penodol

1.12. Nid yw'r CEFR yn cynnig arweiniad ynghylch yr elfennau ieithyddol penodol y dylai dysgwyr fod wedi'u caffael er mwyn cyrraedd unrhyw lefel. Yn wir, mae'n datgan yn glir nad yw hynny'n bosib, o ystyried ei fod yn offeryn i'w ddefnyddio, mewn theori, ar gyfer unrhyw iaith (Cyngor Ewrop, 2020: 130). Felly ni all dadansoddiad o lefelau'r CEFR gynnig eglurder ar yr union batrymau ieithyddol y mae dysgwyr wedi'u caffael. Ystyriwyd, serch hynny, ei bod yn bwysig cael syniad o hynny wrth lunio cwrs newydd.

1.13. Trawsgrifiwyd y sgyrsiau grŵp enghreifftiol, gan dagio elfennau penodol a'u categoreiddio, a chymharu'r data ar y ffurf hon â chynnwys cwrslyfrau Cymraeg i Oedolion. Gwnaed hyn yn benodol â phatrymau gramadegol a geirfa. Mae hyn yn galluogi cymharu'n fwy uniongyrchol, heb ddefnyddio'r CEFR i gyfryngu. Mae'r dull hwn yn caniatáu i ni weld a yw'r dysgwyr wedi cael eu cyflwyno, er enghraifft, i'r gorffennol cryno. Gellir gweld hefyd beth sydd ar goll. Nid yw'n ddull perffaith; nid yw diffyg tystiolaeth o'r gorffennol cryno, er enghraifft, yn brawf na chafodd ei gyflwyno. Mae'n bosib a) ei fod wedi'i gyflwyno ond heb ei gaffael, neu b) nad yw'r arholiad yn cynnig cyfle i'r dysgwyr ddefnyddio'r patrwm penodol hwn. Ond y mae'r dull hwn yn cynnig darlun bras.

1.14. Mae'r astudiaeth yn cychwyn drwy drafod strwythur cymhwyster TGAU fel cyflwyniad i'r dadansoddiad. Mae'n mynd ati wedyn i drafod pa sgiliau a chymwyseddau y gellir tybio sy'n ddisgwyliedig eu gweld mewn ymgeiswyr ar gyfer cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith, gan ganolbwyntio ar bedwar categori penodol, sef gramadeg, geirfa, rhuglder a rhyngweithio. Mae'r adran olaf yn crynhoi'r canfyddiadau.

2. TGAU

2.1. Nid yw TGAU Cymraeg Ail Iaith yn eistedd mewn gwagle nac yn dechrau o'r dechrau. Mae'n adeiladu ar sylfeini sy'n dechrau yn y Cyfnod Sylfaen ac sy'n parhau drwy wahanol gyfnodau addysg dysgwyr. Er ei bod yn aneglur o hyd pa mor llyfn yw'r pontio rhwng gwahanol gyfnodau allweddol, y mae TGAU yn adeiladu ac yn ddilyniant mewn theori i'r gwaith a gychwynnwyd eisoes. Mae ystyried y Cyfnodau Allweddol cynharach y tu hwnt i gwmpas yr adroddiad hwn, ond dylid cadw hynny mewn cof wrth ddarllen cynnwys yr adran hon. Nid dechrau'r daith gyda Chymraeg ydy cynnwys TGAU i fod.

Deunyddiau

2.2. Mae'r ddogfen *Cymraeg Ail Iaith yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru* (Llywodraeth Cymru, 2015)[3] yn amlinellu'r cwricwlwm cyfredol ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 (blynyddoedd TGAU), gan gynnwys Rhaglen Astudio y disgwylir i ganolfannau ei chyflwyno. Fodd bynnag, prin yw'r deunyddiau addysgu, er enghraifft cwrslyfrau penodol i athrawon, i gyflwyno'r cwricwlwm a chyflawni'r Rhaglen Astudio. Mae'n anodd, felly, cynnig barn sydd wedi'i llywio gan ddealltwriaeth o adnoddau dysgu ac addysgeg. Fodd bynnag, gellir tybio bod yr addysgeg a'r cynnwys yn yr ystafell

[3] Gellir llwytho'r Cwricwlwm cyfredol ar gyfer Cymraeg Ail Iaith i lawr yma https://hwb.gov.wales/api/storage/aa616fed-1672-457b-ae06-a37e7e9edb52/cymraeg-ail-iaith-yng-nghwricwlwm-cenedlaethol-cymru.pdf Cyrchwyd ddiwethaf 16/05/2022.

ddosbarth yn cael eu llywio i raddau helaeth gan y gofynion ar gyfer llwyddo yn yr arholiad TGAU (cysyniad sy'n cael ei alw'n adlif, neu *washback*, yn y llenyddiaeth (Tavakoli & Jones, 2018; Weir, 2005b)). Mae'r arholiad a'r deunydd cysylltiedig yn rhoi arwydd clir o beth y mae disgwyl i ddisgyblion ei ddysgu yn ystod Cyfnod Allweddol 4. Felly, yn ychwanegol at y Cwricwlwm uchod, archwiliwyd y canlynol:

- Manyleb Cymraeg TGAU Ail Iaith (sy'n cynnwys pedwar Amcan Asesu a chynlluniau marcio ar gyfer dau o'r amcanion hyn) (CBAC, 2020)[4]
- Deunyddiau Asesu Enghreifftiol (CBAC, 2017)[5]
- Canllaw Addysgu (CBAC, dim dyddiad)
- deunyddiau adolygu ar gyfer yr arholiad (gweler isod)
- enghreifftiau o sgyrsiau grŵp yn trafod tasgau yn arholiad llafar TGAU[6]
- adroddiadau arholwyr (CBAC, 2019, 2018)

2.3. Parthed y deunyddiau adolygu ar gyfer yr arholiad, mae llawer ar gael ar wefan CBAC[7]. Ystyriwyd dau o'r rhain yn benodol ar gyfer yr ymchwil hon. Dewiswyd y rhain fel y mwyaf perthnasol, am eu bod yn paratoi disgyblion yn benodol at unedau llafar yr arholiad[8], gan gyflwyno ymarferion byrion a phatrymau iaith a fydd yn ddefnyddiol i ddisgyblion ar gyfer gwahanol elfennau'r unedau hyn. Mae'r ymarferion yn seiliedig ar rai o'r deunyddiau llafar ac ysgrifenedig a ddefnyddiwyd mewn arholiadau yn y gorffennol.

2.4. Noder hefyd bod manyleb yr arholiad yn rhestru nifer o adnoddau sydd ar gael i addysgu'r gofynion *iaith* (canolbwyntio ar fireinio cywirdeb mae'r rhain gan fwyaf), ond nid yw'n ofynnol i athrawon ddefnyddio'r rhain, ac nid ydynt yn ddigonol fel adnoddau i ddibynnu arnynt i gyflwyno'r cwricwlwm. Rhestrir a thrafodir y rhain o fewn y drafodaeth benodol am batrymau gramadegol (gweler 4.10 a 4.11 isod).

2.5. Cyn troi at y dadansoddiad, rhoddir disgrifiad byr o'r cwrs yn gyffredinol. Rhennir hyn rhwng y cwricwlwm a'r rhaglen astudio ar y naill law, a chymhwyster TGAU ar y llaw arall.

Y Cwricwlwm a'r Rhaglen Astudio

2.6. Siarad yn eithaf eang ynghylch y mathau o sgiliau a sefyllfaoedd a chyfleoedd y dylid eu rhoi i'r dygwyr a wna'r Rhaglen Astudio o fewn y Cwricwlwm. Mae hi wedi'i rhannu'n dair prif ran – llafaredd, darllen ac ysgrifennu. Mae pob un o'r tair rhan hon wedi'u rhannu'n ddwy, sef sgiliau ac ystod. Ystyrir y rhan ar lafaredd yn unig yn y disgrifiad hwn, ond dylid pwysleisio nad ydy'r Rhaglen Astudio yn rhoi mwy o bwyslais ar un elfen dros yr un o'r lleill. Nid yw llafaredd, er enghraifft, yn cael mwy o sylw nag ysgrifennu neu ddarllen.

2.7. Mae'r Rhaglen Astudio yn rhoi darlun o hyfedredd ieithyddol tebyg i'r hyn a geir yn y CEFR. Mae'r CEFR yn pwysleisio bod y sawl sy'n arfer iaith yn gwneud hynny fel gweithredwr cymdeithasol

---

[4] https://www.cbac.co.uk/media/cl0blk3z/wjec-gcse-welsh-second-language-spec-from-2017-w-15-11-2021.pdf Cyrchwyd ddiwethaf 16/05/2022.
[5] https://questionbank.wjec.co.uk/qualifications/welsh-second-language/r-welsh-second-language-gcse-2017/wjec-gcse-welsh-second-language-sams-from-2017-w%20(10-03-17).pdf?language_id=2 Cyrchwyd ddiwethaf 16/05/2022.
[6] Mae'r rhain wedi'u rhestru yn y Canllaw Addysgu, ond maent i'w cael yma: https://goo.gl/v0Rck7, https://goo.gl/vDkqmy, https://goo.gl/xMGQXI, https://goo.gl/4amBpn, https://goo.gl/ofEscU, https://goo.gl/6AvC84 Cyrchwyd ddiwethaf 20/07/2022.
[7] https://resources.wjec.co.uk/Pages/ResourceByArgs?subId=31 Cyrchwyd ddiwethaf 20/07/2022.
[8] https://resources.wjec.co.uk/Pages/ResourceSingle.aspx?rId=4101 a https://resources.wjec.co.uk/Pages/ResourceSingle.aspx?rId=4026 Cyrchwyd ddiwethaf 20/07/2022.

(*social agent*), lle mae'r unigolyn yn rhoi'r arfau ieithyddol sydd ganddi ar waith i gyflawni tasgau penodol at ddibenion penodol. Am dasgau, dywed y CEFR:

We speak of 'tasks' in so far as the actions are performed by one or more individuals strategically using their own specific competences to achieve a given result. (Cyngor Ewrop, 2001:9)

Gwelir bod hyn wedi'i adlewyrchu yn y Rhaglen Astudio. Er enghraifft, o dan y sgiliau, pwysleisir ymwybyddiaeth o gynulleidfa a phwrpas, defnyddio iaith i ddatblygu perthynas, defnyddio iaith addas i'r sefyllfa, adnabod gwahaniaethau rhanbarthol, ac ystyriaeth o amrywio ieithyddol yn ôl cyd-destun. Yn sicr, mae hyn yn gofyn lefel uchel o hyfedredd ieithyddol. Fel arall, mae'r Rhaglen Astudio'n pwysleisio elfennau ieithyddol, e.e. geirfa ac ymadroddion, cwestiynau, patrymau brawddegol, a rhywfaint yn fwy penodol ffurfiau berfol (amser a pherson), negyddu brawddegau, arddodiaid, treigladau, geiriau tebyg a chenedl enwau.

2.8. Ni ragnodir parthau neu gyd-destunau neu sefyllfaoedd penodol y dylid paratoi dysgwyr ar eu cyfer, dim ond pwysleisio *amrywiaeth*. Fodd bynnag, rhestrir nifer fechan o 'bwrpasau' i'w cynnwys, ymysg eraill, sef holi'n fanwl a chynnig sylwadau estynedig; rhoi a dilyn cyfres o gyfarwyddiadau; cyflwyno profiadau personol/dychmygus a gwybodaeth ffeithiol yn fanwl; mynegi a chyfiawnhau barn; ac adrodd yn ôl ar drafodaeth.

2.9. Noder bod targedau cyrhaeddiad i'w cael ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3, ond nid yw'n ymddangos bod y rhain yn berthnasol i Gyfnod Allweddol 4.

Arholiad TGAU

2.10. Mae arholiad TGAU yn cwmpasu pedair uned, fel a ganlyn:

Uned 1: Siarad 10%; Gwrando 15%
Uned 2: Siarad 20%; Gwrando 5%
Uned 3: Darllen 15%; Ysgrifennu 10%
Uned 4: Darllen 10%; Ysgrifennu 15%

2.11. Mae pob uned yn cyfrannu 25% yr un at y marc terfynol. Gwelir felly bod ychydig yn fwy o bwyslais ar y sgiliau siarad (30% gyda'i gilydd) nag ar y sgiliau eraill, ond bod llafaredd yn ei gyfanrwydd yn cwmpasu hanner y cymhwyster.

2.12. O ran cynnwys a'r tasgau, cymharol debyg yw Unedau 1 a 2. Asesiadau llafar diarholiad yw'r ddwy uned, a gaiff eu hasesu gan yr athro (mae CBAC yn safoni sampl). Yn y ddwy uned, mae angen i ddysgwyr ymateb ar lafar i sbardunau drwy gyfrwng trafodaeth grŵp (2 neu 3 o bobl), gan ddangos gallu i: **gyfathrebu a rhyngweithio'n ddigymell** ag eraill; **gwrando ac ymateb** i gyfraniadau gan eraill; a **mynegi barn** am bynciau amrywiol. Mae'r ddwy uned yn ymdrin ag un o'r themâu eang sy'n cynnig cynnwys pynciol ar gyfer y cymhwyster cyfan, sef Cymru a'r byd, cyflogaeth, ac ieuenctid. Noder mai'r un cynllun marcio bron yn union a ddefnyddir ar gyfer asesu sgiliau siarad yn y ddwy uned. Mae'r cynllun marcio ar gyfer gwrando yn sylweddol wahanol.

2.13. Fel arall, yr hyn sy'n gwahaniaethu'r ddwy uned yw'r sbardunau sy'n cael eu cyflwyno. Sbardun clyweledol[9] a gyflwynir yn Uned 1, tra bo Uned 2 yn cyflwyno cyfuniad o luniau, graffiau a thestunau darllen byr ar ddalen i ymateb iddynt. Mae enghreifftiau o'r mathau o sbardunau a geir

[9] 'Gweledol' yw'r gair a ddefnyddir yn y fanyleb, ond diau mai sbardun clyweledol a gyflwynir – mae elfen o lun ac iaith lafar.

i'w gweld yn y Deunyddiau Asesu Enghreifftiol[10] a'r adnoddau adolygu ar-lein a grybwyllir uchod. Maent yn cynnwys y nodweddion canlynol:

- **Uned 1**
  Enghreifftiau o iaith lafar estynedig sy'n ymwneud yn fras ag un neu ragor o'r tair thema eang, e.e. sgwrs yn trafod trip i wersyll yr Urdd yn Llangrannog, anfodlonrwydd â'r ysgol a'r rhesymau pam, profiadau o ddysgu Cymraeg, neu ystyried y cwestiwn 'A yw bywyd yn hawdd i bobl ifanc y dyddiau yma?' Mae mynegi a chyfiawnhau barn yn nodwedd amlwg iawn yn yr holl ddarnau. Ar y cyfan, sgyrsiau rhwng dau neu fwy o bobl a geir, ond mae un enghraifft ble mae unigolion yn annerch cynulleidfa. Mae pob un enghraifft yn amlwg wedi'i sgriptio – mae'r cyfranogwyr yn cymryd eu tro yn drefnus heb ddim amharu na gorgyffwrdd. Fodd bynnag, ymdrechir ar y cyfan i gyflwyno iaith lafar gymharol naturiol. Mae un enghraifft o ddeialog sy'n amlwg wedi'i thargedu at ddysgwyr, gydag iaith syml, brawddegau llawn a siarad hynod bwyllog. Ond mae enghreifftiau eraill o siarad cymharol gyflym ac ieithwedd sy'n agos at sgwrsio llafar naturiol siaradwyr rhugl, yn cynnwys iaith yn llifo'n rhwydd, ffurfiau tafodieithol a chywasgiadau (e.e. 'nai weu(d) 'tho ti'). Mae'r holl siaradwyr yn ifanc, a llawer yn amlwg yn ddisgyblion ysgol (yn aml mewn gwisg ysgol ac wedi'u lleoli yn yr ysgol). Cyflwynir amrywiaeth o fathau o Gymraeg – yn cynnwys iaith y de a'r gogledd, siaradwyr rhugl iawn eu Cymraeg a rhai llai rhugl eu Cymraeg.

  Wrth wylio'r sbardun (ddwy waith) caiff ymgeiswyr wneud nodiadau ar daflen gofnodi. Mae enghraifft o daflen gofnodi yn Atodiad 1.

- **Uned 2**
  Dalen yn cynnwys deunydd testun a llun ar bwnc penodol (ynghlwm wrth y themâu eang), e.e. ein planed, gwyliau, technoleg fodern, bwyta'n iach. Mae'r testun fel arfer yn cynnwys penawdau a phytiau byr mewn bocsys testun gan unigolion dienw – yn dweud rhywbeth amdanynt eu hunain mewn perthynas â'r pwnc ac yn mynegi barn. Yn aml, mae ystadegau neu graff ar y ddalen (e.e. siart cylch yn dangos y gwledydd mwyaf poblogaidd i fynd ar wyliau). Mae enghraifft yn Atodiad 2. Eto, caiff ymgeiswyr wneud nodiadau ar ddalen.

2.14. Ar gyfer y ddwy uned, caiff yr ymgeiswyr 10 munud i baratoi ar gyfer y drafodaeth, gan ymgynghori ag aelodau eu grŵp a gwneud nodiadau. O'r Deunyddiau Asesu Enghreifftiol mae'n glir bod yr athro yn gyfrifol am sicrhau bod trafodaeth rhwng y dysgwyr yn llifo, ond yn ddelfrydol y dysgwyr eu hunain sydd i ddatblygu'r drafodaeth. Mae copi'r athro o'r papur arholiad ar gyfer Uned 2 yn cynnwys awgrymiadau o gwestiynau cefnogi ar gyfer y drafodaeth, e.e. Ydych chi'n cytuno gyda'r hyn sy'n cael ei ddweud yn y bocsys? Beth mae'r ystadegau yn dangos? Beth ydy manteision / anfanteision o ofalu am yr amgylchfyd? (CBAC, 2017: dim rhif tudalen)

3. Siarad yn ddigymell

3.1. Cyn symud ymlaen i gyflwyno'r canlyniadau, trafodir yn fras natur y sgwrsio yn y sgyrsiau grŵp enghreifftiol a'r disgwyliadau yn fwy cyffredinol o fewn y cymhwyster TGAU ar gyfer siarad yn ddigymell.

[10] Gellir gwylio'r clipiau fideo a ddefnyddir yn y Deunyddiau Asesu Enghreifftiau ar gyfer Uned 1 yma http://resource.download.wjec.co.uk.s3.amazonaws.com/vtc/cai/3%20Disgybl.mp4 ac yma http://resource.download.wjec.co.uk.s3.amazonaws.com/vtc/cai/Dysgu%20Cymraeg-Greenscreen.mp4 Cyrchwyd ddiwethaf 20/05/2022. Mae sgriptiau o'r clipiau hyn i'w gweld yn y Deunyddiau Asesu Enghreifftiol.

3.2. Mae Cymraeg mewn addysg cyfrwng Saesneg wedi'i feirniadu ers blynyddoedd am nad yw'n cynhyrchu siaradwyr Cymraeg â sgiliau llafaredd ymarferol. Yn benodol, teimlid nad oedd dysgwyr yn cael eu hannog i ddysgu i siarad yn ddigymell. Yn 2004, argymhellodd Estyn yn ei arolwg o'r Gymraeg yng nghyfnodau allweddol 2 a 3, er mwyn codi safonau o foddhaol i dda y dylid:

gofyn am ymatebion hwy ar lafar gan ddisgyblion a phrofi eu gallu i gymhwyso'r hyn y maent wedi'i ddysgu i sefyllfaoedd cyfathrebu naturiol, gan gynnwys gwneud cyfraniadau ***digymell*** *ac estynedig. (Estyn, 2004: 4, fy mhwyslais i)*

Mae adolygiad yr Athro Sioned Davies o Gymraeg Ail Iaith yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 yn dyfynnu o adroddiad o 2012 ar waith cymedroli allanol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru:

Cafwyd enghreifftiau o waith llafar lle'r oedd dysgwyr wedi ***dysgu ar gof*** *gwaith a ddarparwyd yn ysgrifenedig, air am air. Roedd yn anodd iawn felly ystyried y math yma o dasgau fel tystiolaeth ar gyfer Llafaredd gan mai'r cof yn hytrach na sgiliau llafaredd sydd yn cael ei asesu yn y fath achosion. Nid yw dysgu gwaith ysgrifenedig* ***ar gof*** *yn dystiolaeth briodol o Lafaredd. (Llywodraeth Cymru, 2013: 14, fy mhwyslais i)*[11]

3.3. Mae'r cymhwyster TGAU wedi'i ailstrwythuro'n sylweddol bellach, ac mae siarad yn ddigymell yn cael sylw amlwg o fewn y fanyleb newydd mewn ymgais, yn ôl pob golwg, i ymateb i'r feirniadaeth hon. Un o brif nodau'r cymhwyster a restrir yn y fanyleb yw galluogi ymgeiswyr i:

"[d]datblygu sgiliau a strategaethau dysgu iaith er mwyn galluogi ymgeiswyr i gyfathrebu a rhyngweithio'n hyderus a ***digymell*** *mewn sefyllfaoedd perthnasol a chyd-destunau penodedig." (CBAC, 2020: dim rhif tudalen, fy mhwyslais i)*

Mae'r cynlluniau marcio ar gyfer Amcan Asesu Siarad Unedau 1 a 2 yn pwysleisio pwysigrwydd siarad yn ddigymell hefyd. Rhaid arddangos gallu i "[g]yfathrebu a rhyngweithio [...] yn ddigymell" (CBAC, 2020, dim rhif tudalen) er mwyn sgorio'r marciau uchaf yn ôl y disgrifyddion yn y cynllun marcio (mae'r Cynlluniau Marcio i'w gweld yn Atodiad 5). Noder, serch hynny, nad yw'r disgrifyddion ar gyfer y sgoriau is yn cyfeirio at siarad yn ddigymell.

3.4. Yn achos y ddwy uned lafar yn y cymhwyster presennol, tybir ei bod yn anodd i'r ymgeiswyr ddysgu sgyrsiau estynedig ymlaen llaw yn gyfan gwbl ar gof i'w rhoi ar waith yn yr arholiad. Ategir hynny yn Adroddiadau Arholwyr Haf 2018 a 2019 (CBAC, 2019, 2018). Mae'n hysbys i'r athrawon a'r ymgeiswyr ymlaen llaw beth fydd strwythur yr arholiad, y gwahanol bynciau y gall fod gofyn iddynt eu trafod, ynghyd â'r ffwythiannau cyfathrebu a fydd yn codi. Fodd bynnag, ni chânt wybod ymlaen llaw beth fydd union gynnwys yr arholiad na'r pwnc i'w drafod. Gall fod yn anodd iawn, felly, paratoi deunydd ymlaen llaw. Noda'r arholwyr yn eu hadroddiadau fod rhai ymgeiswyr "yn cyflwyno pytiau a ddysgwyd ar gof cyn cyrraedd yr ystafell arholi, a hynny yn gwbl amherthnasol i gynnwys y sbardun ac i natur yr asesiad" (CBAC, 2019: 2). Fodd bynnag, pwysleisia'r arholwyr fod hyn yn cael ei gosbi'n llym a bod disgwyl cyfeirio'n benodol at y deunyddiau sbardun a'u trafod. Pwysleisiant hefyd fod mwyafrif y canolfannau wedi deall mai 'sgwrsio a thrafod ystyrlon' oedd yn bwysig ac nid perffeithrwydd ieithyddol. Disgwylir felly bod ymgeiswyr TGAU wedi'u paratoi'n drwyadl i siarad yn ddigymell ar gyfer yr arholiad llafar.

3.5. Yn sicr, o edrych ar y deunyddiau paratoi sydd ar gael, yn arbennig y matiau help, mae llawer o dalpiau byr o iaith y gall y dysgwyr eu rhoi ar gof, e.e. *Rydw i'n cytuno, Yn fy marn i, Mae'n well gyda fi, Beth amdanat ti?* Ond mae rhoi talpiau byr fel hyn ar waith mewn trafodaeth yn sgìl bwysig i'w chaffael. Yn wir, mae talpiau o'r fath yn enghreifftiau o iaith fformiwläig (Wray, 2002) sy'n gwbl

[11] Ni lwyddwyd i gyrchu'r adroddiad gwreiddiol.

arferol yn iaith lafar siaradwyr rhugl hefyd.

3.6. Serch hynny, o wrando ar yr enghreifftiau ar wefan CBAC o sgyrsiau grŵp yn ymateb i'r sbardunau yn yr arholiad llafar, mae rhai cwestiynau'n codi ynghylch pa mor ddigymell yw'r siarad yn yr enghreifftiau penodol hyn. Mae rhai nodweddion penodol i'r sgyrsiau hyn sy'n anghyffredin mewn rhyngweithio llafar digymell. Ni chynigir dadansoddiad manwl yma, ond noder y canlynol, ar sail y chwe sgwrs sydd ar gael ar-lein:

- **cymryd troeon** (*turn-taking*): mewn rhyngweithio llafar digymell, mae cryn negodi am y 'llawr' yn digwydd (gweler, er enghraifft, Edelsky, 1981), wrth i gyd-sgwrswyr naill ai aros eu tro i siarad, neu dorri ar draws eraill, neu gychwyn siarad ar yr un pryd (gweler, er enghraifft, Sacks et al., 1974 ar gymryd troeon). Yn sgil hynny, mae gorgyffwrdd yn nodwedd amlwg iawn mewn rhyngweithio llafar wrth i gyd-sgwrswyr siarad ar draws ei gilydd i geisio mynegi eu hunain. Yn y sgyrsiau dan sylw, prin iawn yw'r gorgyffwrdd, sy'n anarferol iawn mewn rhyngweithio llafar.
- **porthi** (*backchannelling*): mewn rhyngweithio llafar digymell, mae cyd-sgwrswyr yn fynych iawn yn cynanu ymadroddion byrion wrth wrando ar eraill yn siarad (e.e. *Ie, Dwi'n gweld, Wrth gwrs, Na!*) (gweler, er enghraifft, Heinz, 2003). Mae hyn er mwyn arwyddo, er enghraifft, eu bod yn dal i dalu sylw i'r sawl sy'n siarad, neu'n deall neu'n cytuno. Prin iawn y mae enghreifftiau o'r fath i'w clywed yn y sgyrsiau dan sylw. Gellid dadlau nad yw'r adnoddau ieithyddol gan yr ymgeiswyr i wneud hynny o bosib. Ond noder y gall achosion o borthi hefyd fod yn rhai an-eiriol, e.e. *Mmmm, A-ha* neu ochenaid. Nid oes enghreifftiau o'r fath yn y sgyrsiau. Gellid dod i'r casgliad nad yw'r cyd-sgwrswyr ar y cyfan yn prosesu cyfraniadau'r sawl sy'n siarad ar unrhyw adeg o fewn y sgwrs ei hun, er bod y sgyrsiau'n llifo'n rhwydd ar y cyfan.
- **atgyweirio** (*repair*): mewn rhyngweithio llafar digymell, mae pobl yn ffurfio meddyliau a siarad ar yr un pryd. Mae hyn yn golygu eu bod yn aml yn ailfeddwl neu'n addasu'r mynegiant ar ganol llefariad (*utterance*), gan dorri'r frawddeg yn fyr, mynd yn ôl rai camau neu i'r cychwyn a dechrau eto (atgyweirio) (gweler Schegloff et al., 1977). Mae hyn yn nodwedd amlwg mewn rhyngweithio llafar digymell. Prin iawn yw enghreifftiau o'r fath yn y sgyrsiau dan sylw. Nid yw'n ymddangos bod y cyd-sgwrswyr yn ffurfio meddyliau a siarad ar yr un pryd, sy'n awgrymu bod y sgyrsiau wedi'u paratoi ymlaen llaw.

3.7. Noder mai nodweddion rhyngweithio llafar rhwng siaradwyr *rhugl* a amlinellir yma, ac nid nodweddion rhyngweithio rhwng dysgwyr ail iaith. Serch hynny, tybir y byddai disgwyl gweld peth o'r nodweddion hyn mewn sgyrsiau rhwng dysgwyr, o leiaf.

3.8. Nid oes modd cynnig barn yma ynghylch arholiad TGAU ei hun. Mae a wnelo'r dehongliad uchod yn unig â'r deunyddiau enghreifftiol sydd ar gael ar wefan CBAC, ac mae'n seiliedig ar y rhain yn benodol. Nid yw'n hysbys a yw'r rhain yn enghreifftiau 'go iawn' wedi'u recordio'n wreiddiol ar gyfer yr arholiad, neu ai wedi'u llunio'n benodol fel deunyddiau enghreifftiol maen nhw. Hynny yw, nid yw'n hysbys ai ymgeiswyr TGAU neu actorion o fath sy'n cymryd rhan.

3.9. At hynny, *os* ydynt yn enghreifftiau 'go iawn' o'r arholiad, nid yw'r uchod i awgrymu nad yr ymgeiswyr eu hunain sy'n paratoi'r deunydd. Mae'n ddigon posib mai nhw sy'n rhoi'r brawddegau at ei gilydd ymlaen llaw i'w hailgynhyrchu yn y sgwrs. Mae'n bosib bod hyn yn digwydd fel grŵp yn y 10 munud i baratoi cyn cynnal y drafodaeth ei hun. Os yw hynny'n wir, yna gellir ystyried bod yr ymgeiswyr wedi caffael llawer o'r elfennau ieithyddol at ryw lefel. Ond byddai'n anodd iawn asesu eu cymwyseddau *llafar* ar sail hyn.

4. Gramadeg

4.1. Archwilir yma beth ddywed y ddogfennaeth ar TGAU am ramadeg yn benodol. Wedyn, cyflwynir dadansoddiad o'r patrymau gramadegol sy'n ymddangos yn y data a ddadansoddwyd cyn ystyried a oes modd defnyddio'r data i leoli'r cymhwyster ar y CEFR o ran cymhwysedd gramadegol.

Ystod a rheolaeth dros batrymau gramadegol

4.2. Yn gyntaf, fodd bynnag, dylid trafod yn fras beth yn union sydd dan sylw. Mae angen rhoi sylw i'r **ystod** o batrymau y mae disgwyl i ddysgwyr eu caffael yn gymaint â'r **rheolaeth** y disgwylir fod gan ddysgwyr dros y patrymau hyn. Mae ystod a rheolaeth yn gysyniadau y mae'r CEFR yn eu rhoi ar waith yn ei raddfeydd a'i ddisgrifyddion. Noda fod yr ystod o batrymau y mae'r dysgwr yn eu hychwanegu at ei repertoire (ystod) yn ehangu dros amser, ond bod y dysgwr yn dueddol o wneud mwy o gamgymeriadau ((diffyg) rheolaeth) pan fydd y patrymau hyn yn newydd. Pwysleisia:

attempting to use more complex language, taking risks and moving beyond one's comfort zone are essential parts of the learning process. When learners are tackling more complex tasks, their control of their language naturally suffers, and this is a healthy process. (CEFR:2021: 130)

Os canolbwyntir yn unig ar reolaeth (neu ddiffyg rheolaeth) dysgwyr dros y patrymau, h.y. ar gywirdeb ieithyddol, yna caiff dysgwyr eu cosbi am ymdrechu i ddefnyddio patrymau newydd, am gymryd risgiau ac am y mathau o ymddygiad y dylid, mewn difrif, eu canmol.

4.3. Noder mai gair arall am gywirdeb yw rheolaeth i raddau. Defnyddir 'rheolaeth' yma am fod cywirdeb yn gysyniad mor ddadleuol mewn ieithyddiaeth, ac am fod syniadau am gywirdeb ieithyddol wedi'u lliwio i'r fath raddau gan ffactorau cymdeithasol ac ideolegol (gweler, er enghraifft, Lippi-Green, 2011; Milroy, 2001).

4.4. Sylwer, fodd bynnag, er cymaint mae'r CEFR yn pwysleisio'r gwahaniaeth rhwng rheolaeth ac ystod, nad oes graddfeydd ar wahân mewn perthynas â gramadeg yn benodol. Dim ond graddfa ar gyfer 'cywirdeb gramadegol' sydd. Tybir bod hynny'n deillio o'r ffaith bod y CEFR yn anelu at fod yn offeryn i'w ddefnyddio ar gyfer unrhyw iaith (fel y trafodwyd yn 1.12 uchod), ac felly nad yw am ragnodi beth yw ystod y patrymau gramadegol y dylai dysgwyr feddu arnynt ar unrhyw lefel benodol. Bu peth beirniadaeth o hynny yn y llenyddiaeth. Er enghraifft, mae Keddle yn dadlau y byddai mwy o arweiniad o ran cysyniadau gramadegol bras yn ddefnyddiol (Keddle 2004: 48).

4.5. Fodd bynnag, o safbwynt ymarferol ar gyfer dylunio cwrs ar gyfer dysgwyr ôl-TGAU, mae'n bwysig cael syniad bras o'r mathau o batrymau maent wedi'u caffael, waeth beth fo hynny'n ei awgrymu o ran eu lefel ar Fframwaith Ewrop. At y diben hwnnw, cyflwynir isod yr ystod o batrymau gramadegol drwy graffu ar yr enghreifftiau sy'n codi yn y data a'u cymharu â'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno ar wahanol lefelau darpariaeth Cymraeg i Oedolion. Er mwyn cael gwell syniad o hyfedredd mewn perthynas â rheolaeth dros batrymau gramadegol, ystyrir y data mewn perthynas â graddfa 'Cywirdeb Gramadegol' y CEFR.

4.6. Cyn cyflwyno'r prif ddadansoddiad, fodd bynnag, ystyrir yn fras beth yw'r disgwyliadau sy'n cael eu mynegi'n fwy amlwg o fewn y ddogfennaeth, yn arbennig yn y fanyleb.

Gofynion penodol y Fanyleb

4.7. Nid yw cymhwyster TGAU yn rhestru patrymau gramadegol *penodol* y mae disgwyl i ddysgwyr eu caffael. Fodd bynnag, mae'r Fanyleb yn rhestru'r categorïau gramadegol. Rhestrir **berfau**

(presennol, perffaith, amherffaith, dyfodol, gorffennol rheolaidd, gorffennol afreolaidd, amodol, gorchmynnol, berfau diffygiol), **ansoddeiriau** (safle, cenedl, lluosog, goleddfu, cyffelybiaethau, cymharu); **treigladau** ('rheolau mwyaf cyffredin'); **rhagenwau** (syml, blaen, dangosol); **cysyllteiriau**; **y fannod**; **adferfau amser**; **cyfarchion**; **rhifolion** (traddodiadol a chyfoes, benywaidd a gwrywaidd, blwydd etc.); **arddodiaid** (syml, treiglo, gyda berfau, rhedeg); **cymalau** (perthynol, enwol); **idiomau**; **strwythurau idiomatig**; **enwau** (cenedl, lluosog); **cwestiynau**. Pwysleisia'r Fanyleb bod disgwyl i ddysgwyr allu *deall* a *defnyddio'r* patrymau hyn. Dylid pwysleisio bod y wybodaeth hon yn berthnasol i'r TGAU cyfan – sgiliau llafaredd a sgiliau llythrennedd.

4.8. Mae'r Fanyleb yn cynnwys Cynlluniau Marcio ar gyfer Unedau 1 a 2. Fel nodwyd eisoes, mae'r cynlluniau hyn bron yn union yr un fath yn y ddwy uned ar gyfer yr amcan asesu Siarad. Maent yn cyfeirio at ddefnydd o batrymau iaith, gan chwilio am ystod eang a chywirdeb, a nodir yn arbennig y chwilir yn ddelfrydol am ystod o amserau'r ferf. Ymddengys mai ystod o amserau'r ferf yw'r brif nodwedd benodol a bwysleisir. Noder nad yw'r Cynlluniau Marcio ar gyfer yr amcanion asesu gwrando yn cyfeirio'n benodol at batrymau gramadegol.

4.9. Yn absenoldeb adnoddau addysgu penodol ar gyfer TGAU, gellir ystyried nad oes cyfarwyddyd clir i athrawon ynghylch pa batrymau i'w haddysgu. Noder bod hyn yn cyferbynnu'n gryf â sector Cymraeg i Oedolion, ble mae'r cwrslyfrau'n mynd trwy'r prif batrymau gramadegol yn systematig.

Cyfeirlyfrau

4.10. Y mae Manyleb CBAC yn rhestru rhai cyfeirlyfrau ar gyfer elfennau penodol ieithyddol. Llyfrynnau cywiro gwallau yw'r rhan fwyaf o'r rhain, ac nid adnoddau ar gyfer cyflwyno ac ymarfer patrymau. Nid ydynt i gyd yn adnoddau sy'n benodol ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae dwy gyfrol *Seren Iaith* (yn ôl y cyflwyniad byr yn yr ail gyfrol) wedi'u hanelu at "bobl ifanc Cymru, yn Gymry Cymraeg ac yn ddysgwyr" (Breese & Clement, 2014). Mae'n glir o'r ymarferion eu bod yn anelu at fireinio i raddau trylwyr iawn (e.e. gofynnir i'r defnyddiwr gywiro'r frawddeg *Dywedir fod uwd yn dda i chi* (Breese & Clement, 2014: 65)). Mae *Can Canllaw 1* (Hopwood, 2014a) a *Can Canllaw 2* (Hopwood, 2014b) yn llyfrynnau sy'n cynnig canllawiau penodol ar gyfer ysgrifennu aseiniadau academaidd. Maent yn cynnwys ymarferion ar gywirdeb gramadegol, ond afraid dweud mai'r iaith ysgrifenedig safonol yw'r model a gyflwynir yma, a thybir mai'r bwriad oedd iddynt gael eu defnyddio ar gyfer cyrsiau Cymraeg academaidd ar lefel uchel, nid cyrsiau sy'n ceisio cyflwyno Cymraeg llafar at ddibenion mwy cyffredinol. Ni ystyrir felly ei bod yn debygol bod y deunyddiau hyn yn cael eu defnyddio'n fynych ar gyfer TGAU Cymraeg Ail Iaith.

4.11. Mae'r *Chwiliadur Iaith* (ap Emlyn, 2003) a *Golwg ar Iaith* (ap Emlyn, 2007) yn fwy penodol ar gyfer addysgu TGAU Cymraeg Ail Iaith, ac mae hynny'n glir o'r cynnwys. Er enghraifft, maent yn dechrau gyda'r wyddor a sgiliau geiriadur. Maent yn cyflwyno elfennau sy'n fwy amlwg ar gyfer dysgwyr e.e. y ffurf ar y ferf *bod* ar ôl geiriau cwestiwn (*Pwy/Beth **yw**, Ble/Pryd **mae**, Faint/Sawl **sy**...?*). Maent yn fwy tebygol, felly, o fod o ddefnydd i athrawon wrth addysgu. Serch hynny, nid yw'n glir faint o ddefnydd a wneir o'r llyfrynnau hyn ac felly mae'n anodd dod i unrhyw gasgliadau pendant ar eu sail.

Ystod patrymau gramadegol yn y data

4.12. Mwy dadlennol na'r cyfeirlyfrau a drafodir uchod yw'r deunyddiau addysgu ac adolygu a ddarperir ar-lein gan CBAC. Mae'r rhain yn rhoi syniad ymarferol o'r disgwyliadau er mwyn helpu i baratoi dysgwyr at yr arholiad. Fel nodwyd yn 2.2. uchod, mae'r rhain i'w cael yn yr adnoddau adolygu ar-lein, yn y ddogfen Deunyddiau Asesu Enghreifftiol, yn y Canllaw Addysgu ac yn y clipiau sain o ddysgwyr yn trafod mewn grŵp y sbardunau a geir yn y deunyddiau enghreifftiol (cyfeirir at y

clipiau sain hyn yn yr adroddiad hwn fel 'sgyrsiau enghreifftiol'). Mae'r rhain yn rhoi cryn dipyn o arweiniad i athrawon i baratoi eu dysgwyr at yr arholiad.

4.13. Ystyriwyd y rhain er mwyn cael syniad o ystod y patrymau gramadegol yng nghymhwyster TGAU. Gellir dweud yn gyffredinol bod yr iaith lafar a gyflwynir yn eang ac yn gymharol gymhleth. Y mae cryn dipyn o ailadrodd patrymau. Fel nodwyd eisoes, mae'r tasgau llafar ar gyfer Uned 1 a 2 yn gymharol debyg. Mae'r ddwy uned yn gofyn cyfeirio at y deunydd, mynegi barn, rhoi gwybodaeth gyd-destunol a holi barn eraill. Ceir hefyd gyfle ar ddechrau'r arholiad llafar i ymgeiswyr gyflwyno gwybodaeth amdanynt eu hunain.

4.14. Gwelir llawer o'r patrymau sy'n ofynnol yn y Canllaw Addysgu, ble cyflwynir 'mat help' i gefnogi athrawon i baratoi dysgwyr at yr arholiad ar gyfer y ddwy Uned lafar yn eu tro. Mae'r matiau hyn yn debyg iawn i'w gilydd o ran cynnwys. O ran patrymau gramadegol, maent wedi'u rhannu'n dair colofn: un yn cyflwyno patrymau ar gyfer cyfeirio at y sbardun, un arall yn cyflwyno patrymau ar gyfer mynegi barn, a'r olaf yn cyflwyno patrymau ar gyfer holi barn pobl eraill. Rhoddir enghreifftiau o'r mathau o batrymau a geir yn y colofnau hyn isod:

Cyfeirio at y sbardun	Mynegi barn	Holi barn
Mae'r lluniau'n dangos ____ Roedd ____ yn dweud ____ Yn ôl ____	Rydw i'n/Dw i'n cytuno gyda ____ Dw i'n meddwl bod ____ Mae'n gas gyda fi ____	Wyt ti'n cytuno? Beth ydy dy farn di? Oes rheswm gyda ti? Pam wyt ti'n anghytuno?

Rhoddir rhywfaint o batrymau defnyddiol eraill hefyd ar gyfer cyflwyno gwybodaeth arall a allai fod yn bwysig i roi cyd-destun, yn enwedig amdanynt eu hunain (h.y. yn y person cyntaf), e.e. *Bydda i'n ____, Hoffwn i ____, Roeddwn i'n arfer ____, Es i ____* ayb.

Mae Atodiad 3 yn dangos y mat help ar gyfer Uned 1.

4.15. Gan fod sector Cymraeg i Oedolion yn rhestru'n benodol y patrymau i'w haddysgu, roedd modd archwilio'r deunyddiau TGAU am y patrymau hyn. Y brif ffynhonnell a ddefnyddiwyd fel data i gymharu oedd y sgyrsiau enghreifftiol (mae trawsgrifiadau o'r sgyrsiau enghreifftiol i'w cael yn Atodiad 7). Mae hyn yn rhoi gwell syniad o ran iaith gynhyrchiol yn hytrach na goddefol. Ond defnyddiwyd hefyd y deunyddiau sbardun ar gyfer Uned 1 yn y Deunyddiau Asesu Enghreifftiol, y matiau help ar gyfer Unedau 1 a 2, ac awgrymiadau i athrawon o gwestiynau trafodaeth ar gyfer Uned 2 (yn y Deunyddiau Asesu Enghreifftiol).

4.16. Mae Tabl 1 yn rhestru'r prif batrymau gramadegol sydd i'w cael yn y data a archwiliwyd ac yn eu categoreiddio yn ôl y lefel Cymraeg i Oedolion ble caiff y patrymau dan sylw eu cyflwyno[12]. Mae'r rhan fwyaf o'r enghreifftiau a roddir yn y tabl yn dod o'r brif ffynhonnell ddata, sef y sgyrsiau enghreifftiol. Lle bo'r enghreifftiau'n dod o'r ffynonellau ategol, gwneir nodyn o hyn. Gall y ffynonellau hyn ond rhoi syniad i ni am wybodaeth oddefol a ddisgwylir gan ymgeiswyr.

4.17. Sylwer hefyd, hyd yn oed mewn defnydd cynhyrchiol o iaith, nid yw'n glir bob tro a yw'r dysgwyr yn defnyddio rhai o'r patrymau dan sylw am eu bod wedi dysgu'r ramadeg ynteu am eu bod wedi eu dysgu fel talpiau unigol – rhywbeth sy'n ymdebygu fwy at linynnau geirfaol. Mae hyn yn wir am rai ymadroddion enwol (e.e. y patrwm 'enw + enw' yn *gwaith cartref*). Ystyrier hefyd y treiglad trwynol ar ôl *fy*, e.e. yn *fy marn i.* Mae'r geiriad hwn i'w glywed un ar ddeg o weithiau yn y recordiadau, yn debygol am fod y dysgwyr wedi'i ddysgu o'r mat help fel un telpyn. Nid yw'n glir

[12] Archwiliwyd cwrslyfrau'r Canolfan Dysgu Cyrmaeg Genedlaethol ar gyfer lefelau Mynediad, Sylfaen a Chanolradd.

felly a yw'r rheol ramadegol *fy* + Treiglad Trwynol wedi'i chaffael ai peidio, ac a fydd y dysgwyr yn ei defnyddio mewn achosion eraill. Mewn gwirionedd, ond ddwywaith mae'r patrwm gramadegol hwn yn codi yn y sgyrsiau enghreifftiol mewn unrhyw gyd-destun arall, ac mae'r treiglad wedi'i hepgor (*fy teulu, fy brawd*).

4.18. Parthed categoreiddio'r patrymau yn ôl lefel CiO, pwysleisir eto mai'r lefel y caiff patrwm ei *gyflwyno yn gyntaf* a roddir. Nid yw cyflwyno patrwm yn golygu bod dysgwyr yn ei gaffael. Nid yw'r categoreiddiad hwn yn ddehongliad o lefel iaith lafar y siaradwyr na lefel y sbardunau. Y bwriad yma yw cynorthwyo'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddeall beth, mewn theori, sy'n debygol o fod wedi'i gyflwyno o leiaf, ac nid rheolaeth dysgwyr dros hynny. Mae gallu dweud brawddegau unigol ar wahân yn cynnwys un neu ddau batrwm yn unig yn dra gwahanol i allu defnyddio amrywiaeth o batrymau o fewn yr un frawddeg neu ychydig frawddegau, a hynny gydag amrywiaeth o bersonau gramadegol a geirfa. Yn sicr, gellid dweud bod y siaradwyr yn y sgyrsiau enghreifftiol i weld yn arddangos rheolaeth dda dros y patrymau, gan lwyddo i ddefnyddio amrywiaeth o batrymau ac amserau'r ferf o un frawddeg i'r nesa, sy'n gofyn sgiliau ieithyddol, cyfathrebol a gwybyddol sylweddol.

4.19. Nid eir i fanylder am yr holl batrymau gramadegol yn y tabl, ond cynigir rhai sylwadau.

4.20. O edrych ar y tabl, gwelir bod llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno yn lefel Mynediad yn ymddangos yn y deunyddiau dan sylw. Nid yw'r dadansoddiad hwn yn rhoi syniad o amlder neu gyfran o'r patrymau sy'n perthyn i ba lefel, ond gellir nodi bod rhai patrymau'n digwydd yn fynych iawn. Yn amlwg efallai, mae'r presennol cwmpasog yn digwydd yn fynych iawn (mae 69 enghraifft o *Dw i* / *Rydw i* a 147 o *mae* yn y presennol cwmpasog). Er mai'r person cyntaf a'r trydydd person unigol sy'n digwydd fwyaf mynych, mae enghreifftiau o bersonau gramadegol eraill hefyd. Ceir nifer o frawddegau yn yr amherffaith a gyda dyfodol *bod* (er bod y rhain wedi'u cyfyngu bron yn ddieithriad i'r trydydd person unigol). Dim ond un enghraifft o'r perffaith a geir yn y sgyrsiau enghreifftiol, a hynny yn y frawddeg fformiwläig *Dw i wedi blino,* ond mae'n bosib bod y prinder hwn am nad oes cyfle i'r dysgwyr ddefnyddio'r patrwm.

4.21. Sylwer bod enghreifftiau o frawddegau negyddol, yn cynnwys yn y trydydd person, sy'n gallu bod yn dalcen caled i ddysgwyr Cymraeg, e.e. *Dydy awr yr wythnos ddim yn ddigon, Dydy pawb ddim yn gallu deall y gwaith, Dydyn nhw ddim yn gwylio y teledu.* (Nid oes rhes ar wahân ar gyfer y negyddol yn y tabl, ond mae enghreifftiau penodol wedi'u cynnwys.) Ar wahân i'r presennol cwmpasog, ychydig o frawddegau negyddol sydd i'w cael. Mae un yn y dyfodol (*Fydd drama ddim yn helpu*). Mewn un arall, mewn achos mwy cymhleth, ceisir defnyddio cymal *bod* yn y negyddol, ond nid yw rheolaeth y siaradwr dros y patrwm yn gadarn (*Mae Gwen yn cwyno bod dydy hi ddim yn deall cemeg*).

4.22. Mae natur yr arholiad yn gofyn bod yr ymgeiswyr yn holi ei gilydd, felly mae llawer o gwestiynau'n codi yn y data. Mae tua hanner y rhain yn gwestiynau yn y presennol cwmpasog, naill ai yn yr ail berson unigol (*Wyt ti'n cytuno?*) neu yn y trydydd person unigol (*Beth yw'r pwynt?*) Dim ond tri chwestiwn sydd mewn amserau eraill – un yn y gorffennol cryno (*Beth wnest ti?*) a dau yn yr amodol (*Beth arall hoffen ni astudio?*). Fel arall, mae'r cwestiynau'n ddi-amser, llawer iawn ar ffurf *Beth am...?* (e.e. *Beth am Comic Relief? Beth amdanat ti?*)

Tabl 1: Y prif batrymau gramadegol yn neunyddiau TGAU yn ôl lefel CiO

Patrwm	Enghraifft	Lefel CiO	Nodyn
Presennol cwmpasog – amrywiaeth o bersonau gramadegol, ac yn cynnwys brawddegau cadarnhaol a negyddol a chwestiynau.	Dw i'n hoffi rygbi Dw i ddim yn deall Mae e'n berson diflas Rydyn ni'n cael saith gwers gwyddoniaeth Dydyn nhw ddim yn gwylio y teledu	M	Mae amrywiaeth o bersonau gramadegol. Mae'r dysgwyr yn cyfeirio at ei gilydd yn yr unigol fel *ti*. Gwelir ffurfiau *chi* ar y cyfan mewn patrymau i athrawon eu defnyddio gyda'r grŵp. Mae nifer o enghreifftiau o'r negyddol yn ogystal, yn cynnwys yn y trydydd person.
Ansoddeiriau mewn brawddegau cwmpasog, yn cynnwys y treiglad meddal ar ôl *yn*	Mae dysgu Cymraeg yn bwysig Dydy awr yr wythnos ddim yn ddigon	M	Mae nifer o enghreifftiau yn y data, a llawer yn cynnwys y treiglad meddal ar yr ansoddair.
Gwrthrych amhenodol yn y presennol cwmpasog a'r amherffaith, yn cynnwys i fynegi meddiant	Does dim drama ar y cwricwlwm Oes rheswm gyda ti? Roedd pwynt pwysig gyda Gwen	M	
Cwestiynau	Pryd mae dy ben-blwydd di? Beth ydy dy farn di? Pam bod dim llawer o chwaraeon ar y cwricwlwm? Beth yw'r pwynt? Wyt ti'n cytuno? Beth arall hoffen ni astudio? Beth wnest ti? Beth am Comic Relief? Beth amdanat ti?	M	Mae nifer o gwestiynau yn y data. Mae llawer iawn yn y presennol cwmpasog, a llawer yn ddi-amser. Ychydig sydd mewn amserau eraill. Mae nifer fechan yn y gorffennol cryno, yn yr amodol a'r amherffaith. Mae enghreifftiau o gwestiynau agored a chaeedig. Noder nad oes llawer o atebion i gwestiynau caeedig. Mae llawer o'r enghreifftiau o gwestiynau caeedig yn gwestiynau rhethregol.
Gorffennol cryno rheolaidd ac afreolaidd, yn cynnwys TM ar y gwrthrych	Ces i waith cartref Cawson ni llawer o hwyl Es i i'r clwb mathemateg Dysgais i sgïo Dechreuais i dysgu... Beth wnes ti?	M	Fel gwelir, mae'r TM ar y gwrthrych yn cael ei anghofio'n aml.
Yr amser perffaith	Dw i wedi blino	M	Un *wedi* sy'n codi yn y sgyrsiau enghreifftiol a wyliwyd, ond mae llawer yn codi yn y sbardunau llafar.
Yr amser amherffaith	Roedd yn fendigedig Roedd Sara a Nia yn dweud... Roeddwn i'n arfer mynd...	M	Dim ond y person cyntaf a'r trydydd person unigol sy'n codi yn y sgyrsiau enghreifftiol. Defnyddir y ffurfiau 'llawn' ar y ferf, e.e. *Roeddwn* nid *Ro'n*.
Presennol cwmpasog a'r amherffaith gydag *eisiau*	Dw i eisiau Roedd hi eisiau gwylio Eastenders Dw i ddim eisiau gweithio yn y tŷ	M	
Brawddegau pwysleisiol yn y 3ydd person	Y pwynt pwysig ydy... Beth ydy'r pwynt? Gwaith cartref oedd problem Sara	M	
Dyfodol *bod*	Bydd yn bwysig Bydd yn ddiddorol Fydd drama ddim yn [helpu?]	M	Dim ond y trydydd person a glywyd yn y sgyrsiau enghreifftiol.
Rhagenwau meddiant	fy hoff bwnc fy ffrind dy farn di	M	Mae rhai o'r rhain yn codi mewn ymadroddion a ddysgir ar y cof – dau o'r rhain i'w gweld yn y mat iaith.

	dy bwynt ei babi ein opsiynau eich hyder eich iaith eu hoff		Mae llawer o enghreifftiau o *fy*, nifer dda o *dy*, ac ychydig iawn o *ei, ein*, *eich* ac *eu*.
Enw + ansoddair	syniad da pynciau gwahanol posteri Cymraeg nofel newydd John Green	M	Mae ychwanegu'r enw personol hefyd yn yr enghraifft ola yn lefel o gymhlethdod sy'n mynd y tu hwnt i Mynediad, gellid dadlau.
Enw + enw, yn cynnwys TM ar ôl enw benywaidd	clwb drama gwaith cartref clip fideo gwersi gwyddoniaeth gwers fathemateg eich iaith gwlad*	M	Mae'n bosib mai wedi'u cyflwyno a'u dysgu fel ffurfiau geiriol cwmpasog y mae'r rhain, ac nid fel rheol ramadegol. Dim ond yn y ffynonellau ategol ceir TM ar ôl enw benywaidd (*gwers fathemateg*), ac nid yn y sgyrsiau enghreifftiol. *Gwelir bod yr enghraifft a roddir o'r patrwm hwn gyda rhagenw meddiant yn peri trafferth.
TM ar enwau benywaidd ar ôl y fannod	o'r wers	M	Nid yw hyn yn codi yn y sgyrsiau enghreifftiol, ond yn y ffynonellau ategol
Rhifolyn + enw, yn cynnwys rhifolion benywaidd	dwy iaith tri person saith gwers	M	
TM ar ôl yr arddodiad *o*	llawer o waith cartref gormod o wyddoniaeth mwy o wersi	M	Mae enghreifftiau lle caiff y treiglad ei hepgor hefyd, e.e. *llawer o gwaith cartref, symbol o caru*
TM ar ôl yr arddodiad *i*	gwahanol i wersi symudodd i Gymru	M	Mae mwy o enghreifftiau lle caiff y treiglad ei hepgor, e.e. *help i deall, Es i i Llangrannog, helpu i gofalu, dibwynt i dysgu, mynd i clwb drama*
TT ar ôl *yn*	ym marn Gwen ym mlwyddyn chwech yng Nghymru	M	
yn a *mewn*	mewn gwesty mewn siop [trin] gwallt yn y cwricwlwm yn yr ysgol	M	Yn yr enghreifftiau o drafodaeth grŵp, mae peth camddefnydd o *mewn*, e.e. mewn blwyddyn naw, mewn dosbarth Mr Jones
Mynegi cais gan ddefnyddio *cael* yn y dyfodol cryno	Ga i awgrymu...?	M	Ffwythiant cyfathrebu yw hwn, ond mae'n sylw yn y cwrslyfr Mynediad. Ddim i'w weld yn y sgyrsiau enghreifftiol, dim ond un enghraifft yn y ffynonellau ategol, ar y mat help. DS Mae enghreifftiau o ffurfiau dyfodol cryno eraill i'w gweld yn y sgyrsiau enghreifftiol, ond ar lefel Sylfaen y caiff y rhain eu cyflwyno.
rhaid	Does dim rhaid gwneud chwaraeon Rhaid i bawb ddysgu mathemateg Bydd rhaid i mi wneud y gwaith cartref	M	Un enghraifft sydd yn y sgyrsiau enghreifftiol, ond mae nifer yn y ffynonellau ategol.
Amodol *bod*	Efallai baswn i'n mwynhau... Baswn i'n hoffi bod...	S	Dim ond yn y person cyntaf. Mae'r enghreifftiau hyn yn dod o'r sgyrsiau enghreifftiol, ond mae'r patrwm i'w gael yn y matiau help.

Amodol *gallu*	Gallen (n)i [d]dweud	S	Dyw hi ddim yn glir ai'r unigol neu'r lluosog a olygir.
Amodol *hoffi*	Beth arall hoffen ni astudio? Hoffwn i astudio celf Hoffai hi astudio drama	S	Mae *Hoffwn i* yn codi'n aml iawn.
Dylwn i, ayb.	Dylech chi ddysgu... Dylai pob athro siarad Cymraeg	S	
sy i gysylltu cymalau	Ydych chi'n cytuno gyda'r hyn sy'n cael...	S	Ddim yn y sgyrsiau enghreifftiol, ond am yr enghraifft *Pwy sy'n becso...?* Hepgorir yn yr enghraifft *Ond beth am pobl [sy] ddim yn hoffi chwaraeon?*
Arddodiad *am* wedi'i redeg	Beth amdanat ti?	S	Mae hwn yn batrwm penodol a geir yn y mat help.
Ffurfiau cymharol ansoddeiriau	mae chwaraeon yn well na Ffrangeg	S	Ceir nifer o enghreifftiau hefyd o 'Mae'n well gyda fi', ond mae hwn yn ymadrodd idiomatig yn fwy na phatrwm gramadegol.
Cyflwyno cymal enwol gyda *bod*	Roedd Sara a Nia yn dweud bod eisiau... Dw i'n meddwl bod chwaraeon yn bwysig	S	Mae llawer o enghreifftiau o'r rhain, yn cael eu cyflwyno gan y berfau *meddwl, dweud, gwybod, cwyno...*
Cyflwyno cymal enwol gyda *bod* a rhagenw	Dw i'n meddwl achos ein bod ni... Mae Gwen yn cwyno bod dydy hi ddim yn deall Dwi'n meddwl bod bwysig dathlu Mae'n amlwg eich bod chi... Dw i'n [...] hapus iawn fy mod i'n byw yng Nghymru	S / C	Mae'r patrymau trydydd person yn cael eu cyflwyno ar lefel Sylfaen, a'r person cyntaf a'r ail berson ar lefel Canolradd. Tair enghraifft sy'n codi yn y sgyrsiau enghreifftiol, ond mae tystiolaeth o ddiffyg rheolaeth mewn dwy enghraifft. Prin yw'r enghreifftiau eraill, ac nid yw pob person gramadegol i'w weld, na defnydd cywir o'r negyddol.
Goddefol gyda *cael*	Ces i ngeni yn Fiji Ces i fy ngeni yn Lerpwl Ydych chi'n cytuno gyda'r hyn sy'n cael ei ddweud?	S / C	Mae'r geiriad *Ces i (fy) ngeni* yn digwydd ambell waith yn y sgyrsiau enghreifftiol a'r ffynonellau ategol. Mae'r defnydd penodol hwn yn cael ei gyflwyno ar lefel Sylfaen, ond ar lefel Canolradd y cyflwynir y goddefol yn gyffredinol. Mae'r unig ddefnydd arall o'r goddefol i'w weld yn y cwestiynau a awgrymir i gyfwelwyr eu defnyddio.
Cysylltair y cymal enwol pwysleisiol (*mai / taw*)	achos mai fi sy'n bwysig	C	Un enghraifft.
Cywasgiadau gydag *i, o* ac *a*	i'w helpu i'ch gilydd i'ch helpu o'u gwastraff	C	Dyma'r unig enghreifftiau. Dim ond yn y ffynonellau ategol mae'r rhain yn codi. Mae'r cwrs Canolradd yn cyflwyno *i'r, o'r* ac *a'r* hefyd, ac mae llawer o'r rhain yn y data. Ond ystyrier nad cynnwys Canolradd yw'r enghreifftiau penodol hyn.
Hwn, hon, hwnna, honna, rhain, rheina	yr ysgol hon	C	Dim ond yn y ffynonellau ategol. Mae pedair enghraifft o *yr ysgol hon* mewn un sgript. Nid oes enghreifftiau eraill.
Rhagenw gyda berfenw	Mae e eisiau fy ngweld i Bydd yn helpu fi	C?	

M = Mynediad; S = Sylfaen; C = Canolradd; ? = nid yw'n ymddangos bod y patrwm yn cael ei gyflwyno yn unrhyw un o'r lefelau hyn

4.23. Mewn perthynas â'r treigladau, mae'n amlwg bod y treiglad meddal a'r treiglad trwynol wedi'u cyflwyno, ynghyd â rhai cyd-destunau ble cânt eu defnyddio, ond nid yw rheolaeth y dysgwyr yn gwbl gadarn. Er enghraifft, mae nifer o enghreifftiau o anghofio treiglo ar ôl yr arddodiaid *i* ac *o* (a gaiff eu cyflwyno ar lefel Mynediad CiO).

4.24. Mae nifer o ffurfiau amodol berfau, a gyflwynir yn y cwrs CiO Sylfaen, i'w gweld yn y deunyddiau hyn, yn cynnwys amodol *gallu, hoffi* a *dylai/dylech*. Mae'r rhain yn batrymau penodol a gyflwynir yn y matiau help, ac nid yw'n glir a yw'r paradeim cyfan wedi'i gyflwyno a'i gaffael ar gyfer y patrymau hyn neu ond un neu ddau o bersonau'r ferf. Fodd bynnag, maent yn batrymau defnyddiol wrth gynnal sgwrs.

4.25. Am fod angen i ddysgwyr gyfeirio at y sbardunau yn eu trafodaethau, mae hyn yn cynnig y cyfle iddynt lunio brawddegau mwy cymhleth gan gyflwyno cymalau enwol gyda *bod*, e.e. *Dw i'n meddwl bod chwaraeon yn bwysig*. Gwneir hyn nid yn unig gyda *bod* + enw ond hefyd gyda *bod* + rhagenw, e.e. *Dw i'n meddwl achos ein bod ni...* Does dim llawer o'r enghraifft olaf hon yn codi yn y sgyrsiau enghreifftiol, ond mae'n batrwm cymhleth i'w ddysgu ac i'w roi ar waith yn llafar. Mae'r enghraifft a roddir yn 5.19 uchod yn achos o'r fath yn y negyddol (*Mae Gwen yn cwyno bod dydy hi ddim yn deall*). Nid oes gan y siaradwr reolaeth dros y patrwm hwn, ond y mae'n rhoi cynnig arno, sy'n dystiolaeth o barodrwydd i fentro.

4.26. Sylwer bod y mwyafrif llethol o'r patrymau'n codi yn gyntaf ar lefel Mynediad yn narpariaeth Cymraeg i Oedolion. Mae nifer hefyd yn codi ar lefel Sylfaen. Cymharol fach yw'r gyfran sy'n codi ar lefel Canolradd. Fel sonnir yn 4.18 uchod, nid yw hynny'n arwydd clir mai ar lefel Mynediad neu Sylfaen y mae'r dysgwyr o ran eu hyfedredd. Erbyn diwedd cwrs Mynediad, nid yw'r dysgwyr wedi caffael gwybodaeth gynhyrchiol o'r holl batrymau sydd wedi'u cyflwyno, ac yn wir nid yw'r arholiad yn profi'r holl batrymau (gweler Manyleb lefel Mynediad, CBAC, 2020). At hynny, ar lefel Mynediad y mae'r patrymau iaith mwyaf sylfaenol yn cael eu cyflwyno. Disgwylir y bydd iaith unrhyw siaradwr yn frith o'r patrymau mwyaf sylfaenol neu'r rhai a ddefnyddir fwyaf mynych.

Beth sydd ar goll?

4.27. Ffordd arall o edrych ar y data yw ystyried beth sydd ar goll. Pwysleisir nad yw'n glir os oes unrhyw batrymau yn absennol o'r ddogfennaeth nad ydynt wedi'u cyflwyno o gwbl yn ystod y cwrs. Mae'n bosib nad yw'r tasgau'n rhoi cyfle i ddysgwyr arddangos patrwm gramadegol. Efallai eu bod wedi dysgu'r goddefol yn drylwyr, ond nad oes ei angen ar gyfer y tasgau yn yr arholiad. Serch hynny, bydd ystyried beth sydd ar goll yn rhoi rhyw fath o syniad i ni o'r prif ddisgwyliadau ar gyfer TGAU. Cynigir sylwadau ar y prif batrymau gramadegol sy'n cael eu cyflwyno yn y cwrslyfrau Cymraeg i Oedolion sydd naill ai'n absennol o'r data neu'n brin.

4.28. **<u>Mynediad</u>**
Mae'r holl brif batrymau sy'n cael eu haddysgu yng nghwrslyfr Mynediad i'w gweld yn y data, ond cynigir sylwadau ar rai, am nad ydynt o bosib i'w gweld yn fynych, yn enwedig yn y sgyrsiau enghreifftiol. Ystyrir yn achos y rhain ei bod yn debygol bod dysgwyr TGAU wedi cael cyflwyniad i'r patrymau, ond gallai fod yn werth adolygu agweddau arnynt. Noder y canlynol:

- **Gorffennol cryno:** mae berfau rheolaidd ac afreolaidd i'w cael yn y sgyrsiau enghreifftiol, ond does fawr ddim amrywiaeth o bersonau, does dim llawer o gwestiynau, ac nid oes un enghraifft o'r negyddol. Mae'n bosib nad oedd y sbardunau ar gyfer y sgyrsiau yn gofyn cyfeirio'n helaeth at y gorffennol. Noder bod rhai o'r deunyddiau sbardun eraill sydd i'w cael yn y Deunyddiau Asesu Enghreifftiol yn galluogi cyfeirio at y gorffennol. Er enghraifft, ar un o daflenni sbardun Uned 2 mae siart pitsa yn dangos canrannau o bobl aeth ar wyliau i

wahanol wledydd yn 2016. Fodd bynnag, nid oes rheidrwydd ar ymgeiswyr i gyfeirio at unrhyw beth penodol yn y sbardunau, ac nid oes enghreifftiau tebyg i'w gweld yn systematig yn y deunyddiau.

- **Dyfodol *bod*:** Mae nifer o enghreifftiau o'r trydydd person unigol, yn enwedig gydag ansoddeiriau (*Bydd yn ddefnyddiol*), ond ychydig iawn o enghreifftiau sydd o bersonau eraill. Ceir *Byddwch chi'n gallu siarad gyda cwsmeriaid* yn y sgyrsiau enghreifftiol, a *Bydda i'n mynd i'r traeth* yn un o'r matiau help. Eto, noder bod rhai o'r deunyddiau sbardun eraill yn galluogi cyfeirio at y dyfodol. Er enghraifft, yn sbardunau Uned 2, mae rhai pytiau yn hysbysebu digwyddiadau yn y dyfodol (e.e. trip ysgol i Efrog Newydd), a gallai'r daflen 'Ein Planed' ysgogi trafodaeth am y dyfodol. Eto, nid oes rheidrwydd ar ymgeiswyr i gyfeirio at y dyfodol, ac nid oes enghreifftiau o'r fath yn systematig.

- **Gorchmynnol:** Nid oes enghreifftiau o'r gorchmynnol yn y sgyrsiau enghreifftiol. Fodd bynnag, fel gellir disgwyl efallai, mae enghreifftiau o'r gorchmynnol mewn cyfarwyddiadau, yn benodol ar y matiau help (*Siaradwch gyda'ch gilydd, Cynlluniwch gyda'ch gilydd*, ac ati). Ond noder nad oes enghreifftiau cynhyrchiol o'r patrwm hwn.

- **Rhifolion:** Nid oes llawer o dystiolaeth o rifolion y tu hwnt i rif deg. Fodd bynnag, noder bod rhai o'r sbardunau gweledol ar gyfer Uned 2 yn cynnwys ystadegau, a fyddai'n gofyn defnyddio rhifau, felly tybir y byddai'r rhifolion wedi'u cyflwyno.

4.29. **<u>Sylfaen</u>**

Mae peth o'r prif batrymau a gyflwynir yng nghwrslyfr Sylfaen i'w gweld yn y data, ond mae'n anodd rhoi barn ynghylch a yw holl bersonau'r ferf wedi'u cyflwyno, neu ond enghreifftiau unigol mewn talpiau geirfaol. Cynigir y sylwadau canlynol:

- **Arddodiaid:** Mae cwrslyfr Sylfaen yn cyflwyno nifer o arddodiaid, yn arbennig arddodiaid penodol sy'n cyd-fynd â berfenwau, yn cynnwys sut i'w rhedeg. (Mae rhai o'r rhain yn codi yn Mynediad, ond mae'r mwyafrif yn codi ar lefel Sylfaen). Mae nifer o enghreifftiau yn y data o barau o ferfenwau ac arddodiaid (e.e. *gofalu am, cytuno gyda, dwlu ar*), ond ychydig iawn o enghreifftiau sydd o arddodiaid sy'n rhedeg, naill ai yn y sgyrsiau enghreifftiol neu'r ffynonellau ategol. Ceir enghreifftiau o *Beth amdanat ti?*, sy'n cael ei gyflwyno fel telpyn yn y mat iaith. Fel arall, ceir un enghraifft o 'i' wedi'i redeg yn y sgyrsiau enghreifftiol (*Bydd drama yn bwysig iawn iddi*), ac un o 'ar' (*eisiau amser bwyta ... arnon ni*). Mae'n anodd barnu ai diffyg caffael arddodiaid yw'r rheswm, neu ddiffyg cyfle i'w defnyddio. Gellid dadlau nad ydynt yn digwydd yn fynych iawn mewn iaith lafar, ac efallai nad yw'n syndod nad oes llawer o enghreifftiau'n codi.

- **Dyfodol cryno:** Mae'r dyfodol cryno yn cael ei gyflwyno yn y cwrslyfr Sylfaen ar gyfer berfau afreolaidd (*gwneud, mynd, cael, dod*). Cael eu haddysgu ar y cyfan at ddefnydd ffwythiannol maen nhw (am mai mewn cyd-destunau penodol iawn mae'r dyfodol cryno'n cael ei ddefnyddio mewn Cymraeg cyfoes ar y cyfan). Mae dwy enghraifft o'r dyfodol cryno yn y ffynonellau ategol, yn benodol yn y matiau help, ond ni chânt eu defnyddio yn y sgyrsiau enghreifftiol. Fodd bynnag, ffurfiau rheolaidd ydyn nhw (*Credaf, Galla i*). Nid yw'r ffurfiau a addysgir yn y cwrslyfr Sylfaen i'w cael yn y data.

- **Dibynnol amhenodol *bod*:** Nid oes enghreifftiau yn y sgyrsiau enghreifftiol, ond mae'n codi fel iaith ddefnyddiol yn y mat help ar gyfer Uned 2, ar ffurf *Pe bawn i'n gallu...* Noder bod hon yn ffurf wahanol i'r hyn a gyflwynir yng nghwrslyfrau Cymraeg i Oedolion (*taswn i*).

- **Cymharu gydag ansoddeiriau:** Nid oes llawer o dystiolaeth o gymharu ag ansoddeiriau (ystyrier yr holl ffurfiau gramadegol ar gyfer cymharu gyda'i gilydd yma). Mae un enghraifft o *gwell na* i'w chael yn y sgyrsiau enghreifftiol, ac un enghraifft (anghywir) o *yn fwy gwell*. Yn y ffynonellau ategol mae ambell enghraifft arall (*yn fwy na, yn uwch na, yr opsiwn orau*). Nid yw hyn yn llawer o dystiolaeth o fod y patrymau hyn wedi'u cyflwyno neu eu caffael.

- **'blwyddyn' ar ôl rhifolion:** Un enghraifft sy'n codi, a hynny mewn sbardun clyweledol yn y ffynonellau ategol.

- **Trefnolion:** Does dim tystiolaeth ar gyfer y trefnolion, ac eithrio'r ymadrodd *yn gyntaf* ac *iaith gyntaf*.

4.30. **Canolradd**

Ychydig iawn o'r patrymau gramadegol o'r cwrslyfr Canolradd sydd i'w cael yn y data. Haws na rhestru popeth sy'n absennol ydy nodi bod popeth bron yn absennol, ond am yr enghreifftiau a gyflwynir yn Nhabl 1.

4.31. I grynhoi'r rhan hon, gwelir bod tystiolaeth yn y data o lawer o'r patrymau a gaiff eu cyflwyno ar lefel Mynediad. Yn benodol, mae llawer o dystiolaeth o'r presennol cwmpasog, o ddefnydd o ansoddeiriau ac o gwestiynau. Efallai y gellid disgwyl hynny mewn dwy uned ble mai'r prif ffwythiannau cyfathrebu yw holi, mynegi a chyfiawnhau barn. Mae strwythur y ddwy uned yn cynnig cyfleoedd i ddefnyddio llawer o'r patrymau eraill o lefel Mynediad hefyd, ond nid yw hynny'n digwydd mewn ffordd systematig, ac nid yw'n glir i ba raddau mae'r patrymau hyn wedi'u caffael yn drwyadl. Mae hynny'n wir hefyd ar gyfer patrymau lefel Sylfaen. Er bod ambell batrwm ar y lefel hon yn codi'n fynych, ar y cyfan, mae'n anoddach barnu i ba raddau mae'r patrymau sy'n ymddangos yn y data wedi'u caffael yn drwyadl. Ychydig iawn o dystiolaeth sydd o batrymau ar lefel Canolradd.

4.32. Wrth fynd i fyny'r lefelau, mae'n mynd yn anoddach barnu ynghylch y patrymau penodol i raddau am eu bod o'u natur yn batrymau llai mynych. Felly pwysleisir nad yw diffyg tystiolaeth yn dystiolaeth o ddiffyg. Mae'n bosib bod y patrymau hyn wedi'u cyflwyno, ond nad yw strwythur yr arholiad llafar yn rhoi cyfle i ymgeiswyr arddangos eu gwybodaeth. Cofier bod papur ysgrifenedig yn arholiad TGAU, ac mae peth o'r patrymau a gyflwynir ar lefel Canolradd Cymraeg i Oedolion yn fwy tebygol o gael eu defnyddio yn yr iaith ysgrifenedig, er enghraifft yr amhersonol. Sylwer, fodd bynnag, bod y tagiau diwedd brawddeg *on'd yw e / tydy,* ac ati, yn batrymau sy'n codi'n llawer mwy mynych yn yr iaith lafar na'r iaith ysgrifenedig, felly gellid dadlau bod hyn yn dystiolaeth well ar gyfer lefel Canolradd.

Lleoli ar y CEFR

4.33. Fel nodwyd uchod, nid yw'r CEFR yn cynnwys graddfa ar gyfer ystod patrymau gramadegol, dim ond cywirdeb gramadegol. Er gwaethaf pwyslais y CEFR ar y gwahaniaeth rhwng ystod a rheolaeth, felly, canolbwyntir yma yn unig ar reolaeth dros batrymau gramadegol.

4.34. Cynigir sylwadau cyffredinol yn gyntaf am y camgymeriadau gramadegol sy'n codi. Mae'r mwyafrif llethol o gamgymeriadau gramadegol yn rhai sy'n amharu dim ar yr ystyr. Er enghraifft, mae llawer o enghreifftiau o ddiffyg treiglo ar ôl arddodiad (*helpu i gofalu*) neu ar wrthrych y ferf (*Mae'n well gyda fi dysgu ieithoedd*); mae ambell enghraifft o ddefnyddio *yn* gydag *eisiau* (e.e. *Dydy pawb ddim yn eisiau*); mae *yn* yn cael ei hepgor weithiau (*Bydd busnes defnyddiol*). Weithiau hepgorir y ferf *mae* ar ddechrau brawddeg (*gwaith cartref yn wastraff amser*), ond ystyrir nad yw hyn chwaith yn

peri unrhyw broblem o ran cyfathrebu.

4.35. Hyd yn oed yn achos y llond llaw o enghreifftiau mwy difrifol, nid oes llawer ohonynt yn amharu'n wirioneddol ar yr ystyr. Er enghraifft, mae un enghraifft o ddefnyddio *iawn* yn amhriodol gydag enw (*mae'n hwyl iawn*); mae enghraifft o hepgor berf a defnyddio arddodiad yn ei lle (*Beth am bwynt?* yn hytrach na *Beth yw'r pwynt?*); ac enghraifft arall o hepgor arddodiad yn llwyr (*does dim amser waith cartref*). Gall defnyddio amser anghywir y ferf beri cryn drafferth ar lefelau is, ond dim ond un enghraifft o hynny sydd yn y data; defnyddir *dydy hi ddim yn hapus* ble mae'r cyd-destun yn arwyddo'n glir mai'r bwriad yw cyfeirio at y gorffennol.

4.36. Mae ambell achos ble mae'n llai eglur beth mae'r siaradwr yn ceisio'i ddweud. Yn aml, nid yw'n glir ai diffyg rheolaeth dros y ramadeg yw'r achos, neu gyfuniad o elfennau ieithyddol. Er enghraifft, o Drawsgrifiad 3 (gweler Atodiad 7):

C: A roedd Gwen eisiau chwaraeon wahanol, dim gemau fel hoci.

B: Dwi'n cytuno gyda Gwen, achos mae'n chwaraeon gwahanol, dim pêl-droed o hyd ac o hyd. Hoffwn i chwarae pêl-droed, nofio ac enwedig criced.

Nid yw'n glir beth yn union mae'r siaradwr yn ceisio'i ddweud. Efallai bod y gair *angen* wedi'i hepgor, neu o bosib *mae chwaraeon gwahanol yn bwysig* yw'r ystyr a fwriedir. Cymharol brin yw enghreifftiau o'r fath.

4.37. O ystyried graddfa'r CEFR ar Gywirdeb Gramadegol, mae'r disgrifydd ar gyfer lefel **A1** yn gofyn rheolaeth gyfyngedig yn unig dros nifer fechan o strwythurau gramadegol syml a phatrymau brawddegol mewn repertoire wedi'i ddysgu. Dadleuir bod y rheolaeth dros y patrymau gramadegol i weld yn fwy na chyfyngedig, ac er bod llawer o'r strwythurau gramadegol yn cael eu cyflwyno ar lefel Mynediad, ystyrir bod mwy na 'nifer fechan' o strwythurau gramadegol i'w clywed yn y data. Ceir amrywiaeth o amserau'r ferf, amrywiaeth o bersonau gramadegol, rhywfaint o ferfau amodol, peth arddodiaid wedi'u rhedeg, i enwi ond rhai enghreifftiau.

4.38. Mae'r disgrifydd ar gyfer lefel **A2** yn gofyn cywirdeb gyda pheth strwythurau syml, gan dderbyn bod camgymeriadau sylfaenol o hyd. Serch hynny, dylai fod yn glir fel arfer beth mae'r siaradwr yn ceisio'i ddweud. Eto, teimlir bod y siaradwyr yn y sgyrsiau enghreifftiol yn cyrraedd y lefel hon yn ôl y disgrifydd. Mae yna gamgymeriadau yn sicr, ond fel nodir uchod, mae hi'n glir beth mae'r siaradwyr yn ceisio'i ddweud ar y cyfan.

4.39. Mae'r disgrifydd ar gyfer lefel **B1** yn gofyn cywirdeb 'rhesymol' mewn cyd-destunau cyfarwydd, ond derbynnir dylanwad amlwg yr iaith gyntaf. Pan fo camgymeriadau, nid yw hynny'n amharu ar y mynegiant. Mae'n gofyn cywirdeb rhesymol gyda repertoire o batrymau rheolaidd sy'n gysylltiedig â sefyllfaoedd y gellir eu rhag-weld. Teimlir bod y siaradwyr yn y sgyrsiau enghreifftiol ar y cyfan yn cyrraedd y lefel hon. Teimlir bod y cywirdeb yn rhesymol, am fod cyn lleied o gamgymeriadau sy'n wirioneddol amharu ar y cyfathrebu. Ystyrir bod y cyd-destun yn gyfarwydd, am mai dyma mae'r siaradwyr wedi'u paratoi ar ei gyfer. Ystyrir hefyd bod repertoire o batrymau gan y siaradwyr, am eu bod yn gallu amrywio rhwng amserau'r ferf a defnyddio amrywiaeth o bersonau gramadegol, gofyn cwestiynau'n gymharol briodol, ac ati.

4.40. Mae lefel **B2** yn gofyn rheolaeth ramadegol dda, gydag ond rhai mân wallau yn achlysurol, a'r gallu i'w cywiro yn aml. Ni theimlir bod y siaradwyr yn cyrraedd y lefel hon ar y cyfan. Mae'r camgymeriadau'n fwy nag achlysurol, ac yn anad dim, dim ond ambell enghraifft a geir o gywiro camgymeriadau. Yn wir, dim ond un enghraifft glir o gywiro sydd i'w chael yn y data, a dim ond

cywiro'n rhannol a geir, wrth i un o'r siaradwyr yn Nhrawsgrifiad 6 gywiro "gyda teulu" i "gyda fy teulu". Noder ei bod yn bosib bod *rhai* o'r siaradwyr yn cyrraedd y lefel, ond nid oes digon o ddata i bennu lefelau siaradwyr unigol.

4.41. I grynhoi, teimlir bod y rhan fwyaf o'r siaradwyr yn y sgyrsiau enghreifftiol yn cyrraedd lefel B1 o ran cywirdeb gramadegol, am nad yw'r camgymeriadau a glywir yn peri trafferth cyfathrebu ar y cyfan, er eu bod yn gymharol niferus.

5. Geirfa

5.1. Fel yn achos yr adran ar ramadeg, mae'r adran hon yn cyflwyno dadansoddiad mewn dwy ran: ceisir yn gyntaf ystyried yr eitemau geirfaol sy'n codi yn y data mewn perthynas â darpariaeth benodol Cymraeg i Oedolion. Yn ail, ceisir lleoli'r siaradwyr ar y CEFR yn ôl geirfa.

5.2. Cyn cyflwyno'r prif ddadansoddiad, fodd bynnag, ystyrir yn fras beth ellir ei gasglu o fanyleb TGAU ac o'r deunyddiau ehangach.

Geirfa yn y fanyleb a'r deunyddiau ehangach

5.3. Prin iawn y cyfeirir at eirfa neu adnoddau geirfaol o fewn y fanyleb mewn perthynas â'r arholiadau llafar. Yr unig dro y cyfeirir yn benodol at adnoddau geirfaol o unrhyw fath yn y fanyleb ydy yn y rhestr o Ofynion Iaith, o dan yr elfennau 'Idiomau' a 'Strwythurau Idiomatig'. Rhestrir hefyd un cyfeirlyfr sy'n ymdrin ag idiomau'n benodol, *Dim Gobaith Caneri* (Northey, 2015). Nid oes manylion pellach na hynny yn y fanyleb mewn cyswllt ag idiomau, ond mae'n ddigon i arwyddo bod disgwyl i ymgeiswyr ddangos tystiolaeth o ddeall rhywfaint o idiomau.

5.4. Nid yw'r cynlluniau marcio yn manylu ar ddefnydd o eirfa, naill ai mewn perthynas ag ystod neu reolaeth dros eirfa. Nid yw hynny i ddweud nad yw geirfa'n bwysig er mwyn llwyddo yn yr arholiad, ond ni roddir canllawiau penodol.

5.5. Y mae modd dod i rai casgliadau ynghylch geirfa, fodd bynnag. Bydd yr eirfa ofynnol yn dibynnu i raddau helaeth ar y pynciau y mae disgwyl i ddysgwyr eu trafod a'r ffwythiannau cyfathrebu y disgwylir iddynt eu harfer. O ran pynciau, fel nodwyd uchod, mae'r cymhwyster drwyddi draw yn canolbwyntio ar dair thema eang: Cyflogaeth, Cymru a'r byd, ac Ieuenctid. Mae'r themâu hyn yn eang iawn, ac felly gellir casglu bod angen i ymgeiswyr feddu ar ystod eang o adnoddau geirfaol er mwyn ymgyrraedd at y marciau uchaf, yn arbennig o ystyried nad ydynt yn ymwybodol ymlaen llaw pa bynciau penodol fydd yn codi o fewn y themâu hyn. Tybir mai'r nod yma yw annog ymgeiswyr i beidio â chanolbwyntio ar eirfa sy'n gysylltiedig â nifer gyfyngedig o barthau penodol (e.e. bwyd a diod, diddordebau), ond i gaffael amrywiaeth llawer ehangach. Mae angen caffael adnoddau geirfaol eang er mwyn cynnal trafodaeth yn llwyddiannus pan nad yw'n hysbys beth fydd y pwnc penodol a fydd yn codi.

5.6. I roi syniad o'r amrywiaeth o bynciau a allai godi yn yr arholiadau llafar, edrychwyd ar yr enghreifftiau sy'n codi yn y deunyddiau ehangach, yn arbennig yr adnoddau adolygu ar-lein, y Canllaw Addysgu a'r Deunyddiau Asesu Enghreifftiol. Mae'r pynciau canlynol penodol yn codi:

Amser hamdden	Cyflwyno'ch hun	Dysgu Cymraeg	Teulu a ffrindiau
Anifeiliaid anwes	Cyngherddau	Gwaith rhan amser	Yfed alcohol
Bwyta'n iach	Chwaraeon	Gwyliau	Yr amgylchedd
Camau nesaf (gwaith/ysgol)	Dathliadau	Technoleg	Ysgol

5.7. Ystyrir hefyd pa ffwythiannau cyfathrebu y mae gofyn i ymgeiswyr eu harfer. Mae'r ddwy uned wedi'u strwythuro'n debyg iawn o ran y gofynion rhyngweithio. Rhaid i ymgeiswyr gyfeirio at y deunyddiau sbardun, cyfleu gwybodaeth, mynegi a chyfiawnhau barn, a gofyn cwestiynau i eraill i gael gwybodaeth, eglurhad o ystyr ac i holi eu barn hwythau. Yn ogystal â berfau megis *cytuno, anghytuno, meddwl,* ac ati, mae mynegi a chyfiawnhau barn yn gofyn adnoddau disgrifio, yn arbennig ansoddeiriau gwerthuso, e.e. *ofnadwy, arbennig, diflas,* ac ati. Noder hefyd bod rhai enghreifftiau o gyfeirio at graffiau a siartiau i'w cael yn y deunyddiau ehangach, yn arbennig mewn cysylltiad ag Uned 2, felly disgwylir y byddai gan ymgeiswyr beth geirfa mewn perthynas ag ystadegau.

Geirfa sy'n codi yn y data

5.8. Ar gyfer y rhan hon, cymharwyd yr eirfa sy'n codi yn y deunyddiau â'r eirfa a geir yn narpariaeth Cymraeg i Oedolion[13]. Defnyddiwyd y trafodaethau grŵp yn unig fel data, a hynny er hwylustod ac er mwyn cyfyngu'r dadansoddiad i eirfa gynhyrchiol. Hynny yw, gellid bod wedi defnyddio, er enghraifft, y sbardunau clyweledol neu gynnwys o'r deunyddiau adolygu fel rhan o'r data i'w ddadansoddi, ond tybiwyd na fyddai llunwyr cymhwyster TGAU yn disgwyl bod ymgeiswyr wedi caffael yr holl eirfa yn yr enghreifftiau hyn. Fel dywed y rhagarweiniad i restrau geirfa graidd Cymraeg i Oedolion, bydd profion goddefol yn cynnwys eitemau dieithr y bydd disgwyl i ymgeiswyr eu hanwybyddu neu ddyfalu'r ystyr (Morris & Meara, 2019).

5.9. Mae'r dadansoddiad yn ystyried faint o'r eirfa sy'n codi yn y sgyrsiau enghreifftiol sydd hefyd naill ai'n codi yng nghwrslyfrau Cymraeg i Oedolion (yn y rhestrau geirfa ar ddechrau pob uned) neu sydd i'w weld yn rhestrau Geirfa Graidd Cymraeg i Oedolion ar gyfer Mynediad, Sylfaen a Chanolradd (Morris et al., 2019; Morris & Meara, 2019a, 2019b). Ystyriwyd y cwrslyfrau a'r rhestrau Geirfa Graidd gyda'i gilydd am fod rhai geiriau o'r sgyrsiau enghreifftiol nad ydynt yn codi yn y naill neu'r llall. Yn ogystal, fel y noda'r rhagarweiniad i'r rhestrau Geirfa Graidd, dangosol ydynt ac ni ddylid cyfyngu'r dysgu i'r rhestrau hyn yn unig.

5.10. Cafwyd 329 o eitemau geirfa i gyd[14]. Noder nad cyfrif o bob achos o eitemau geirfa a geir. Hynny yw, er bod 35 enghraifft o *cytuno* yn y data, mae'n cael ei gyfrif fel un yn y dadansoddiad hwn. Cyfrifwyd fel 'eitem geirfa' eiriau unigol yn ogystal ag ymadroddion geiriol, e.e. geiriau cyfansawdd, cydleoliadau, idiomau, ac ati. Cafwyd bod rhai geiriau yn codi ar fwy nag un lefel. Ar gyfer y dadansoddiad, defnyddiwyd y lefel gyntaf ble caiff y gair ei gyflwyno. Ymdrinnir â ffurfiau unigol a lluosog enwau fel eitemau geirfa ar wahân oherwydd y diffyg cysondeb o ran sut caiff enwau lluosog y Gymraeg eu ffurfio.

5.11. Mae Tabl 2 yn cyflwyno dadansoddiad o'r eirfa yn ôl lefel Cymraeg i Oedolion. Gwelir bod dros hanner yr eirfa sy'n codi yn cael ei chyflwyno yn gyntaf ar lefel Mynediad neu i'w gweld yng ngeirfa graidd Mynediad. Mae canran sylweddol yn codi ar lefel Sylfaen, ond canran fechan iawn sy'n codi ar lefel Canolradd. Mae bron i chwarter yr holl eiriau heb eu categoreiddio yn ôl yr un lefel.

[13] Archwiliwyd cwrslyfrau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ar lefel Mynediad, Sylfaen a Chanolradd. Cyfyngwyd y dadansoddiad i fersiynau'r De ar bob lefel er hwylustod ac am y tybiwyd nad yw fersiynau'r De a'r Gogledd yn amrywio llawer o ran geirfa. Noder hefyd mai iaith ddeheuol a geir ar y cyfan yn y sgyrsiau enghreifftiol, i'r graddau y gellir barnu.

[14] Sylwer mai geiriau sy'n cyfleu cynnwys semantig a ystyriwyd, ac nid geiriau gramadegol.

Tabl 2: Yr eirfa yn y sgyrsiau enghreifftiol yn ôl lefel Cymraeg i Oedolion

Lefel	Nifer	%
Mynediad	191	58.05
Sylfaen	59	17.93
Canolradd	18	5.47
Ddim yn bresennol ar yr un lefel	61	18.54
Cyfanswm	329	100

5.12. Dylid gochel, fodd bynnag, rhag dehongli'r canlyniadau fel prawf mai ar lefel Mynediad mae'r sgyrsiau enghreifftiol o ran geirfa. Dadleuir nad yw dysgwyr mewn difrif yn caffael yr holl eirfa sy'n cael ei chyflwyno ar unrhyw lefel – nid fel geirfa gynhyrchiol na geirfa oddefol chwaith. At hynny, gellir ystyried bod yr eirfa a gyflwynir ar lefel Mynediad i raddau helaeth yn eirfa sylfaenol ac yn eirfa fynych ei defnydd. Mae geirfa fynych ei defnydd o'i natur yn fwy tebygol o godi yn unrhyw destun na geirfa lai mynych. Er enghraifft, amcangyfrifir bod y 100 o eiriau mwyaf mynych yn yr iaith Saesneg yn cwmpasu 50% o'r holl enghreifftiau o eiriau a ddefnyddir yn yr iaith[15]. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys geiriau gramadegol ac yn seiliedig ar achosion unigol o eirfa, yn wahanol i'r dadansoddiad a gyflwynir yn yr adroddiad hwn, felly ni ellir cymharu'n uniongyrchol. Ond mae'n rhoi persbectif ar y ffigurau yn Nhabl 2.

5.13. Serch hynny, mae'n ddadlennol bod nifer mor fach o'r geiriau i'w cael ar lefel Canolradd. Cyfrifwyd dros fil o eitemau geirfa unigol yn y cwrslyfr Canolradd a'r Eirfa Graidd gyda'i gilydd, ond dim ond 18 o'r rhain sydd i'w cael yn y data. Felly gellir mentro awgrymu o ran cynnwys geirfaol nad yw cymhwyster TGAU yn cwmpasu'r un cynnwys â darpariaeth Canolradd Cymraeg i Oedolion.

5.14. Noder bod y categori olaf (Ddim yn bresennol ar yr un lefel) yn cwmpasu bron i un rhan o bump o'r data. Un o'r prif resymau am hyn yw am fod gair yn gysyniad arbennig o anodd ei ddiffinio. Mae 26 o'r cyfanswm o 61 yn y categori hwn yn eiriau cwmpasog, cydleoliadau neu ymadroddion hirach. Mae rhai geiriau cwmpasog ac ymadroddion hirach yn cael eu cyflwyno fel eitemau geirfa yn y ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion ac maent wedi'u cynnwys yn y Geirfaoedd Craidd. Fodd bynnag, mae'n arbennig o anodd penderfynu a ddylid ystyried eu bod yn eitemau geirfa ynteu beidio pan fônt yn codi mewn set data (ystyrier, er enghraifft, *clwb drama, cadw'n ffit* a *poen yn y pen ôl*, sydd oll yn codi yn y data). Problem fethodolegol ydy'r geiriau penodol hyn yn fwy na thystiolaeth bod cwmpas geirfaol TGAU yn ehangach na darpariaeth Cymraeg i Oedolion.

5.15. Mae enghreifftiau eraill o eiriau yn y categori hwn hefyd am resymau methodolegol. Mae ambell air sydd i'w weld yn fynych yn y cwrslyfrau ond heb ei gynnwys yn yr eirfa yn benodol (*person, peth*[16]*, pethau, ots, rhaid*). Ac mae ambell air sydd wedi'i restru yn yr eirfa yng nghefn un o'r cwrslyfrau ond nid yn y brif eirfa ar ddechrau'r unedau (*digartref, ffrindiau, pynciau, siopau, ych!, yn enwedig*). Dim ond y prif restrau geiriau a ystyriwyd ar gyfer y dadansoddiad, ond gellir dadlau bod mynychder llawer o'r geiriau hyn yn y cwrslyfrau yn awgrymu eu bod yn cael eu cyflwyno yn narpariaeth Cymraeg i Oedolion.

5.16. At hynny, yn y categori hwn mae ambell air nad yw'n cael ei ddefnyddio'n fynych yn yr iaith lafar (*ymlaciol, ansbaradigaethus*). Yn ogystal, mae ambell fenthyciad o'r Saesneg (*banio, cwisys,*

[15] Yn ôl dadansoddiad o Gorpws Saesneg Rhydychen. Gweler https://web.archive.org/web/20111226085859/http:/oxforddictionaries.com/words/the-oec-facts-about-the-language Cyrchwyd ddiwethaf 30/07/2022

[16] Mae *peth* wedi'i gynnwys yn yr argraffiad newydd.

Cantonese, daffodil, sbwylio, jyst).

5.17. Wedi tynnu'r enghreifftiau hyn, 14 o eiriau sy'n weddill, sy'n gyfran ansylweddol. Dyma'r geiriau:

clip	dibwynt	gwallgof	merlota	ymarferol
cwricwlwm	ffotograffiaeth	her	syfrdanol	ysbrydoledig
datrys	gordewdra	heriol	TGAU	

Lleoli ar y CEFR

5.18. Mae'r CEFR yn gwahaniaethu'n glir rhwng ystod geirfa a rheolaeth dros eirfa. Yn wir, mae'r CEFR yn cynnig dwy raddfa ar wahân ar gyfer y naill a'r llall. Mae'r ddwy raddfa wedi'u hystyried yn y rhan hon o'r ymchwil.

Ystod geirfa

5.19. Yn ôl y CEFR, mae'r raddfa hon yn ymwneud â chwmpas yr ymadroddion geiriol a ddefnyddir ynghyd â'r amrywiaeth o eirfa. Rhwng lefelau A1 a B2, rhoddir ystyriaeth i ystod y sefyllfaoedd, gan dderbyn mai dim ond ar gyfer ystod gyfyngedig o sefyllfaoedd y bydd gan ddysgwyr ar y lefelau hyn adnoddau geiriol digonol. Mae'r raddfa hefyd yn ystyried y math o iaith a roddir ar waith – o repertoire syml o eiriau ac ymadroddion ar y lefelau is i repertoire eang iawn yn cynnwys ymadroddion idiomatig a rhai penodol lafar ar y lefelau uwch.

5.20. Mae lefel **A1** yn gofyn repertoire sylfaenol o eiriau ac ymadroddion cysylltiedig â sefyllfaoedd penodol. Bernir bod yr eirfa a ddefnyddir yn yr holl sgyrsiau yn fwy na 'sylfaenol' a'r sefyllfaoedd yn fwy na rhai 'penodol', o ystyried nad yw'n hysbys yn union pa bynciau fydd yn codi. Mae'r sgyrsiau enghreifftiol yn cynnwys geirfa sy'n gysylltiedig â mynegi barn, gwerthuso, pynciau ysgol, ieithoedd a gwledydd, gwaith, diddordebau. Ceir geiriau mwy haniaethol hefyd sy'n anodd eu cysylltu â phwnc neu ffwythiant penodol, e.e. deall, her, datrys problemau, awgrymu, gofalu, syniad, rheswm, agor drysau.

5.21. Mae lefel **A2** yn gofyn geirfa ddigonol i ymgymryd â thrafodion rheolaidd dydd-i-ddydd ("routine everyday interactions") mewn perthynas â sefyllfaoedd a phynciau cyfarwydd, i fynegi anghenion cyfathrebu sylfaenol ("basic communicative needs") ac i fodloni anghenion sylfaenol ar gyfer ymdopi o ddydd i ddydd ("simple survival needs"). Mae angen ystyried a yw'r dasg yn gofyn i ymgeiswyr ymgymryd â 'thrafodion rheolaidd dydd-i-ddydd' neu i fynegi 'anghenion cyfathrebu sylfaenol'. Mae anhawster dehongli disgrifyddion y CEFR mewn perthynas ag ystod geirfa wedi'i feirniadu (gweler, er enghraifft, Weir, 2005: 292-3), ac nid yw'n hawdd barnu'r enghreifftiau dan sylw. Fodd bynnag, cynigir rhai sylwadau. Gellir tybio y dewiswyd y themâu eang a'r pynciau penodol ar gyfer TGAU am yr ystyriwyd eu bod o fewn cwmpas profiadau pobl ifanc. Ond a ydy'r rhain yn dod o fewn cwmpas A2? A ydynt yn cwmpasu anghenion cyfathrebu sylfaenol?

5.22. Mae hon yn thema sy'n codi mewn astudiaeth ansoddol ddiweddar o ganfyddiadau myfyrwyr ysgol o ddysgu Cymraeg fel ail iaith. Dyfynnir un cyfranogwr:

I've learned a lot of stuff that I'm never going to use in future life, like different words and topics that have no relevance to me at all. If it was more relevant to me and my life, then I might be able to use it. ***More basic everyday Welsh is the kind of stuff that is useful****. (Rhys & Smith, 2022: 18, fy*

mhwyslais i)[17]

Mae'r un enghraifft hon yn bell o fod yn ddigon i gyffredinoli i ysgolion ar draws y wlad, ond y mae hon yn thema y byddai'n ddefnyddiol dilyn ei thrywydd.

5.23. Fodd bynnag, yn sicr mae'r siaradwyr i weld yn meddu ar ystod ddigonol o eirfa i fynegi eu hunain o fewn gofynion y dasg, ac yn yr ystyr honno o ran profiad y dysgwyr eu hunain, cymryd rhan yn llwyddiannus yn y dasg ydy'r "simple survival need". Er enghraifft, mae digon o eirfa yn y rhan fwyaf o'r sgyrsiau enghreifftiol i gyfeirio at y sbardunau a'u cynnwys, i fynegi barn am wahanol bynciau, ac i gyfiawnhau barn. Mae'r elfen o gyfiawnhau barn yn galluogi ymestyn y tu hwnt i'r eirfa sy'n codi yn y sbardunau a'r tu hwnt i, e.e. ansoddeiriau gwerthuso, i drafod pynciau ehangach. Er enghraifft, yn Nhrawsgrifiad 1 (gweler Atodiad 7), ceir:

C: Iawn, dw i'n hoffi Saesneg a Cymraeg, ond rydyn ni'n cael saith gwers gwyddoniaeth.

A: Dw i'n cytuno. Gwyddoniaeth yn problem. Dydy pawb ddim yn gallu deall y gwaith.

I ddechrau mae C yn mynegi barn at ddeunydd sy'n codi yn y sbardun ('Dw i'n hoffi Saesneg a Cymraeg'), ac yn ymestyn ar hynny drwy fath o gymharu. Wedyn mae A eto yn mynegi cytundeb, yn cynnig gwerthusiad, ac yn cyfiawnhau hynny gyda gwybodaeth ehangach. Mae hyn yn cynnig cyfle i A ddefnyddio geirfa nad oes modd mewn difri ei rag-weld yn llwyr (*pawb, gallu, deall* a *gwaith*).

5.24. Mae lefel **B1** yn gofyn bod gan ddysgwyr ystod dda o eirfa mewn perthynas â phynciau cyfarwydd a sefyllfaoedd dydd-i-ddydd, a geirfa ddigonol, gyda pheth aralleirio, i fynegi eu hunain ar y rhan fwyaf o bynciau sy'n berthnasol i'w bywyd pob dydd (e.e. teulu, diddordebau, gwaith, teithio, y byd cyfoes). Mae'r un cwestiwn yn codi eto o ran geiriad disgrifyddion y CEFR. Mae'n anodd barnu a yw'r ystod yn un 'dda', am mai byr yw'r sgyrsiau a gyflwynir ar-lein. Unwaith eto, mae'r eirfa i weld yn ddigonol er mwyn cymryd rhan yn y dasg, ac mae amrywiaeth geirfa o fewn y sgyrsiau fel bod modd i'r siaradwyr gynnal trafodaeth yn hytrach nag ailadrodd brawddeg neu ddwy yn unig. Noder hefyd bod y tasgau yn gorgyffwrdd yn sylweddol â'r enghreifftiau y mae'r CEFR yn eu nodi o 'bynciau sy'n berthnasol i fywyd bob dydd' y siaradwyr.

5.25. Mae lefel **B2** yn gofyn ystod dda o eirfa ar gyfer y rhan fwyaf o bynciau cyffredinol a gallu i amrywio'r geiriad er mwyn osgoi ailadrodd. Dadleuir nad yw'r tasgau'n cynnig digon o gyfle i ddysgwyr arddangos geirfa ar gyfer 'y rhan fwyaf o bynciau cyffredinol' nac i amrywio geiriad i osgoi ailadrodd, ac felly na ellir barnu bod TGAU yn cyrraedd lefel B2 mewn perthynas ag ystod geirfa.

5.26. I grynhoi, mae'n anodd iawn barnu pa lefel yn union mae TGAU yn ymgyrraedd ati o ran ystod geirfa. Yn sicr, mae'r enghreifftiau'n rhagori ar A1 ond ddim yn cyrraedd B2. Mae pennu a ydynt yn cyrraedd lefel A2 neu B1 yn dibynnu ar ddehongliad o'r disgrifyddion, a byddai, mae'n debyg, angen profi ar ystod rywfaint yn ehangach o gyd-destunau i gael gwell syniad a oes gan ddysgwyr eirfa ddigonol ar gyfer 'anghenion sylfaenol' ac ar gyfer y 'rhan fwyaf o bynciau perthnasol i'w bywyd pob dydd'.

Rheolaeth dros eirfa

[17] Casglwyd y data dros gyfnod hir, yn cychwyn yn 2012, ac nid yw'n glir a oedd y cyfranogwr penodol hwn wedi astudio ar gyfer yr hen gymhwyster TGAU neu'r cymhwyster newydd.

5.27. Mae'r raddfa yn y CEFR sy'n ymdrin â Rheolaeth dros Eirfa yn ymwneud â'r gallu i ddewis ymadrodd priodol o repertoire; cysylltiadau rhwng geiriau ar ffurf talpiau geirfaol a chydleoliadau (ar y lefelau uwch); pa mor gyfarwydd yw'r pynciau a drafodir (ar y lefelau is); ac i ba raddau gall siaradwyr reoli'r defnydd o eirfa (ar y lefelau uwch).

5.28. Ar y cyfan, mae'r siaradwyr yn y sgyrsiau enghreifftiol yn llwyddo i ddewis geiriau priodol o'u repertoire gan eu hynganu'n glir a'u rhoi ar waith yn ystyrlon. Mae rhai achosion o fethu cofio'r ffurfiau'n iawn. Ambell waith mae hynny'n amharu'n llwyr ar y cyfathrebu. Dro arall mae'r gair a yngenir yn ddigon agos er mwyn gallu dehongli'r ystyr. Er enghraifft, ceir yn Nhrawsgrifiad 2 "Mae mathemateg yn ambasgydiol [?]", ble mae'r siaradwr yn amlwg yn cael trafferth adalw'r gair. Mae hyn yn amharu'n sylweddol ar y cyfathrebu. Mae'r siaradwr nesaf yn ailadrodd: "Mae mathemateg yn anfysgiadol [?]". Mae hyn eto yn dangos diffyg rheolaeth dros y gair, ond gellir dyfalu mai am *addysgiadol* maen nhw'n chwilio. Fodd bynnag, ar y cyfan, cymharol brin yw enghreifftiau fel hyn, ac nid ydynt yn amharu'n fawr ar y cyfathrebu yn ei gyfanrwydd.

5.29. Mae rhai enghreifftiau eraill ble mae'r gair yn cael ei ynganu'n glir, ond lle nad yw wedi'i ddefnyddio yn y frawddeg yn gwbl ystyrlon, weithiau fel bod ystyr y frawddeg yn aneglur, e.e. yn Nhrawsgrifiad 2 wrth drafod pynciau ysgol ceir "Wel mae datrys problem yn hanes". Tybir mai'r ystyr ydy bod datrys problemau yn rhan o astudio hanes, ond nid yw hynny'n glir (nac yn rhywbeth sy'n neidio i'r meddwl mewn cysylltiad â'r pwnc). Serch hynny, mae enghreifftiau fel hyn yn brin.

5.30. Yn olaf, mae nifer o enghreifftiau pan fo gair ychydig yn annisgwyl yn cael ei ddewis. Mae hyn yn ymwneud ag ymdeimlad o beth sy'n arferedig gan siaradwyr rhugl mewn cyd-destunau penodol, sydd ond yn dod wrth ymgyfarwyddo'n sylweddol â'r iaith. Er enghraifft, yn Nhrawsgrifiad 2 ceir "Yn ddieithriad roedd syniad da gyda Nia" (mae *dieithriad* yn ddewis rhyfedd yn y cyd-destun hwn). Eto, ychydig iawn o enghreifftiau fel hyn sydd i'w cael.

5.31. Nid oes disgrifyddion ar y raddfa hon hyd at lefel **A2**. Ar y lefel hon, disgwylir y gall siaradwyr reoli repertoire cul yn ymwneud ag anghenion diriaethol dydd-i-ddydd ("concrete, everyday needs"). Er ei bod eto, yn debyg i Ystod Geirfa, yn anodd dehongli beth a olygir gan 'anghenion diriaethol dydd-i-ddydd', tybir bod rhai o'r pynciau a drafodir yn agos at brofiadau dydd-i-ddydd dysgwyr, yn arbennig wrth drafod yr ysgol. Yn ôl y dehongliad uchod, mae rheolaeth dda gan y siaradwyr dros yr eirfa ar y cyfan.

5.32. Mae lefel **B1** yn gofyn rheolaeth dda dros eirfa elfennol, ond derbynnir gwallau sylweddol wrth fynegi meddyliau mwy cymhleth neu ymdrin â phynciau a sefyllfaoedd anghyfarwydd. Mae rhai o'r siaradwyr yn y sgyrsiau enghreifftiol yn cyrraedd y lefel hon, ond mae nifer fechan yn dangos rheolaeth lai cadarn dros eirfa fwy sylfaenol. Mae'r dehongliad yn dibynnu ar sut diffinnir 'sylfaenol', 'meddyliau mwy cymhleth' a 'sefyllfaoedd anghyfarwydd'. Ai geiriau sylfaenol yw'r geiriau y mae'r dysgwyr yn cael trafferth eu cofio – *cwsmeriaid, disgyblion, traddodiadau, ymwybyddiaeth, addysgiadol*? Neu ydyn nhw'n feddyliau mwy cymhleth? Gellid dadlau eu bod rhwng y ddau. At hynny, sylwer mai geiriau tair sill neu fwy ydynt. Efallai bod cymhlethdod gair yn gymaint i wneud â'i ffurf ag y mae â'r cysyniad ac amlder ei ddefnydd. Mae amheuaeth felly a ydy'r siaradwyr yn cyrraedd y lefel hon.

6. Rhuglder

6.1. Mae'r adran hon yn ymdrin yn unig â lleoli cymhwyster TGAU ar y CEFR gan ddadansoddi'r deunyddiau sydd ar gael.

6.2. Un raddfa sy'n ymdrin yn benodol â rhuglder yn y CEFR, er bod y cysyniad yn codi yn rhai o'r lleill. Defnyddiwyd y raddfa benodol hon ar gyfer y rhan hon o'r astudiaeth. Noda'r CEFR y gellir dehongli rhuglder yn eang neu'n fwy manwl dechnegol. Mae'r ystyr eang yn cwmpasu gallu siaradwr i fynegi neges, a hynny o bosib wrth siarad am gyfnodau hwy a chan gynnig sylwadau mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Yn yr ystyr fwy technegol, mae rhuglder yn awgrymu gallu i siarad heb ormod o amharu ar y llif yn sgil, er enghraifft, chwilio am eiriau. Mae a wnelo â gallu'r siaradwr i adalw ei repertoire a'i roi ar waith. Mae'r CEFR yn defnyddio'r ail ystyr, fwy technegol, fel sail i'r raddfa ar Ruglder, ond mae'n cydnabod mai'r rheswm am hynny yw am fod yr ystyr ehangach wedi'i chynnwys o dan rai o'r graddfeydd eraill hefyd.

6.3. Mae'r raddfa ar Ruglder yn defnyddio'r cysyniadau canlynol

- gallu i lunio llefariadau (*utterances*), er gwaethaf oedi a seibiannau (ar y lefelau isaf)
- gallu i gynnal sgwrs hir
- rhwyddineb y mynegiant a pha mor ddigymell ydyw

6.4. Mae cynnwys y sgyrsiau grŵp enghreifftiol ar y cyfan yn rhugl iawn. Ychydig iawn o oedi a geir yn y trafodaethau, naill ai o fewn troeon unigol neu rhwng troeon. Mae llif y brawddegau yn aml braidd yn staccato, gyda seibiannau byrion rhwng llawer o'r geiriau, ond nid oes llawer o oedi mawr a heb fawr ddim chwilio am eiriau. Mae'r trafodaethau ar y cyfan yn estynedig, a'r mynegiant yn gymharol rwydd. Fodd bynnag, mae'n anodd rhoi'r raddfa hon ar waith, am y rheswm bod amheuaeth ynghylch pa mor ddigymell yw'r sgwrsio, fel yr amlinellir yn Adran 3 uchod. Fodd bynnag, mae peth sylwadau y gellir eu gwneud.

6.5. Mae'r disgrifydd ar gyfer lefel **A1** yn cyfeirio at lefariadau "mainly pre-packaged" (mae'r disgrifyddion i'w gweld yn Atodiad 6). Tybir mai brawddegau wedi'u paratoi ymlaen llaw a olygir yma, ond mae'n bosib hefyd bod 'pre-packaged' yn cyfeirio at ymadroddion fformiwläig sylfaenol iawn. Mae'n gofyn y gall y siaradwr gyflwyno llafariadau byr iawn o'r fath, ond gan oedi'n sylweddol wrth chwilio am ymadroddion, wrth fynegi geiriau llai cyfarwydd ac i atgyweirio. Os caniateir llefariadau "pre-packaged" ar gyfer y lefel hon, yna yn sicr mae'r rhan fwyaf o'r siaradwyr yn rhagori ar lefel A1.

6.6. Mae'n mynd yn anodd barnu ymhellach na hynny, fodd bynnag. Nid yw'r disgrifydd ar gyfer lefel **A2** yn cyfeirio at lefariadau wedi'u paratoi ymlaen llaw nac at siarad yn ddigymell chwaith, sy'n gadael amwysedd o ran y data dan sylw. Mae'r disgrifydd yn gofyn y gall siaradwyr wneud eu hunain yn ddealladwy mewn cyfraniadau byrion, a derbyn bod oedi, ailgychwyn ac aralleirio yn amlwg iawn. Mae hefyd yn gofyn y gall siaradwyr lunio cymalau ar bynciau cyfarwydd gyda digon o rwyddineb i gymryd rhan mewn sgyrsiau byrion, eto er gwaethaf oedi ac ailgychwyn. Pe bai'r siarad yn y sgyrsiau grŵp enghreifftiol yn wirioneddol ddigymell, yna gellid barnu bod y siaradwyr ar y cyfan yn cyrraedd lefel A2. Ond am nad yw hynny'n glir, a hefyd am nad yw'r CEFR yn glir a yw siarad yn ddigymell yn ofynnol ar y lefel hon, yna mae'n anodd iawn barnu.

6.7. Serch hynny, fe ellir tybio bod cymhwyster TGAU yn *ymgyrraedd* at y lefel hon, os mai'r disgwyliad yw y *gall* ymgeiswyr siarad yn ddigymell gyda'r lefel hon o ruglder. Yn sicr mae dogfennaeth ehangach TGAU yn awgrymu'r disgwyliad hwnnw. Hynny yw, er nad yw'n glir a yw'r siaradwyr penodol yn y sgyrsiau enghreifftiol yn cyrraedd lefel A2, yr argraff a geir yw bod llunwyr cymhwyster TGAU yn disgwyl y gallant.

6.8. Mae'r disgrifydd ar gyfer lefel **B1** yn disgwyl i siaradwyr siarad yn effeithiol 'heb help', er gwaethaf oedi amlwg iawn er mwyn cynllunio beth i'w ddweud nesaf ac er mwyn atgyweirio. Mae'r disgrifydd hwn hefyd yn cyfeirio'n benodol at "longer stretches of free production", sy'n arwydd

llawer cliriach o'r disgwyliad bod y siarad yn ddigymell. Mae'r cyfraniadau yn y sgyrsiau enghreifftiol ar y cyfan yn llifo'n rhwydd, a phe bai'r siarad yn wirioneddol ddigymell, yna byddent yn pasio'r lefel hon. Eto, mae hyn yn arwydd efallai o ddisgwyliad mewn theori. Serch hynny, o ystyried bod y disgrifydd ar y lefel hon yn cyfeirio'n benodol at siarad rhydd, ni ellir barnu bod y siaradwyr penodol yn y sgyrsiau enghreifftiol yn cyrraedd y lefel hon.

6.9. Fe welir yn y drafodaeth uchod ymraniad yn y dehongliad. Mae dehongliad ar sail yr hyn y gallwn ei farnu am y siaradwyr penodol yn y sgyrsiau enghreifftiol, a dehongliad o'r disgwyliadau ar gyfer TGAU mewn theori, os derbynnir yr enghreifftiau fel model ar gyfer yr arholiad ond bod disgwyl hefyd i'r siarad fod yn ddigymell. Yn ôl y dehongliad cyntaf, nid yw'r siaradwyr yn mynd yn uwch na lefel A1 neu o bosib A2. Gellir dweud yn ôl yr ail ddehongliad nad yw'r disgwyliadau ar gyfer TGAU yn cyrraedd lefel **B2.** Mae hynny am fod y disgrifydd yn gofyn y gall siaradwyr ryngweithio yn ddigon rhugl a digymell i gydsgwrsio'n rheolaidd (neu 'arferol' o bosib – "regular interaction") â 'defnyddwyr yr iaith darged' heb fod straen ar y naill gyd-sgwrsiwr na'r llall. Gellir dadlau nad yw'r arholiad wirioneddol yn asesu 'cydsgwrsio rheolaidd â defnyddwyr yr iaith darged'. Mae cynnwys dwy uned yr arholiad llafar yn debyg iawn o ran y ffwythiannau cyfathrebol a'r strwythurau ieithyddol gwaelodol cysylltiedig (ac eithrio geirfa benodol i'r pwnc a drafodir), sy'n golygu nad oes amrediad digonol i allu barnu a all siaradwyr gydsgwrsio'n rheolaidd.

6.10. Yn olaf, nid yw manyleb TGAU yn goleuo mwy o ran rhuglder, o leiaf nid mewn perthynas â'r diffiniad mwy manwl dechnegol o ruglder sy'n cael ei roi ar waith yng ngraddfa Rhuglder y CEFR, ac eithrio'r pwyslais ar siarad yn ddigymell. O edrych yn benodol ar y Cynlluniau Marcio yn y fanyleb ar gyfer Amcan Asesu Siarad ar gyfer Unedau 1 a 2, nid oes dim yn cyfeirio'n benodol, er enghraifft, at oedi, ailgychwyn, aralleirio, ac ati. Er mwyn sgorio tua'r brig, rhaid cyfathrebu a rhyngweithio'n 'hyderus' a 'digymell', gyda chyfraniadau 'llawn' a 'chyson' a chynnal sgwrs yn 'hynod lwyddiannus' (gweler Atodiad 5). Mae hyn yn awgrymu cryn ruglder, ond mae'n anodd lleoli'r meini prawf hyn ar raddfa Rhuglder y CEFR.

6.11. I grynhoi, ymddengys fod cymhwyster TGAU yn ymgyrraedd at lefel B1 o ran rhuglder, ond nad oes modd i ymgeiswyr gyrraedd yn uwch na'r lefel honno o ran eu sgiliau llafar. Fodd bynnag, mae diffyg tystiolaeth i farnu a yw hyfedredd gwirioneddol y siaradwyr o ran rhuglder yn uwch na lefel A1 neu o bosib A2, a hynny yn benodol am nad oes enghreifftiau digonol o siarad digymell yn y data a arsylwyd.

7. Rhyngweithio

7.1. Fel yn achos Rhuglder, mae'r adran hon yn ymdrin â lleoli'r cymhwyster TGAU ar y CEFR gan ddadansoddi'r deunyddiau sydd ar gael.

7.2. Mae nifer o raddfeydd cysylltiedig â rhyngweithio yn y CEFR (gweler Atodiad 6 i weld crynodeb o'r cyfan sydd ar gael). Ar gyfer yr astudiaeth hon, dewiswyd Rhyngweithio Llafar Cyffredinol (*Overall Oral Interaction*), am mai sgwrsio cyffredinol y tybir y mae TGAU a darpariaeth gyffredinol Cymraeg i Oedolion yn paratoi dysgwyr ar ei gyfer.

7.3. Noder cyn cychwyn bod rhyngweithio yn weithgaredd sy'n cael ei bwysleisio o fewn manyleb TGAU. Fel nodwyd uchod, mae sgiliau llafaredd yn cyfrif am hanner y cymhwyster, a sgiliau siarad o fewn hynny am 30%. O edrych ar y Cynlluniau Marcio ar gyfer yr Amcan Asesu Siarad, mae cyfathrebu a rhyngweithio o fewn trafodaeth yn amlwg iawn. At hynny, noder bod sgiliau rhyngweithio hefyd yn cael sylw o fewn y meini prawf ar gyfer Amcan Asesu Gwrando – gyda phwyntiau'n cael eu rhoi ar gyfer *ymateb* i'r hyn a glywir yn briodol.

7.4. Nid yw'r CEFR yn cynnig sylwadau cyffredinol ar ddechrau'r raddfa hon o ran pa gysyniadau a gaiff eu rhoi ar waith ynddi. Fodd bynnag, gellir dweud o edrych ar y raddfa, er enghraifft, ei bod yn ystyried parth ac ehangder y cynnwys (o 'anghenion uniongyrchol' ar waelod y raddfa i bynciau cymhleth ar y brig); gallu i gynnal a llywio sgwrs; y mathau o lefariadau a gynhyrchir (gofyn ac ateb cwestiynau, gwirio a chadarnhau gwybodaeth); pa mor annibynnol yw'r siarad.

7.5. Yn debyg iawn i raddfa Rhuglder, mae graddfa Rhyngweithio'n anodd iawn i'w chymhwyso i'r data am fod amheuaeth ynghylch pa mor ddigymell yw'r siarad. Yn wir, dyma'r raddfa anoddaf i'w rhoi ar waith yng nghyd-destun y data hwn, am fod rhyngweithio o'i natur yn gofyn siarad yn ddigymell. Fodd bynnag, cynigir rhai sylwadau ar y lefelau unigol yn y graddfeydd.

7.6. Mae lefel **A1** yn gofyn am allu rhyngweithio syml, ond gan dderbyn bod y cyfathrebu'n gwbl ddibynnol ar ailadrodd araf, aralleirio ac atgyweirio. Gellir gofyn ac ateb cwestiynau syml, cychwyn ac ymateb i ddatganiadau syml mewn meysydd o 'angen uniongyrchol' neu ar bynciau cyfarwydd iawn. Pe bai'r siarad yn ddigymell, gellid dweud bod y sgyrsiau enghreifftiol yn rhagori ar hyn. Mae'r rhyngweithio'n llawer mwy na syml, nid yw'r siarad yn araf ond ar ambell achlysur pan fo'r siaradwr yn chwilio am air. Nid oes dim ailadrodd, aralleirio nac atgyweirio. Gofynnir nifer o gwestiynau syml ac ymatebion, o fewn maes mynegi barn yn bennaf. Mae'n anodd casglu a yw'r ymgeiswyr yn cyrraedd y lefel hon ai peidio, fodd bynnag, am fod amheuaeth a yw'r rhyngweithio'n ddigymell.

7.7. Mae lefel **A2** yn gofyn gallu i ryngweithio'n gymharol rwydd a heb fawr o drafferth mewn sgyrsiau byrion a sefyllfaoedd strwythuredig, ond gyda help os oes angen. Ar y cyfan, mae'r sgwrs yn llifo'n rhwydd iawn, a phrin iawn oes angen help ar y siaradwyr. Mae'r lefel hefyd yn gofyn gallu i ofyn ac ateb cwestiynau a chyfnewid gwybodaeth ar bynciau cyfarwydd mewn sefyllfaoedd dydd-i-ddydd y gellir eu rhagweld. Yn sicr mae'r dasg yn gofyn hyn oddi wrth yr ymgeiswyr. Mae'r disgrifydd yn nodi mai anaml y gall siaradwyr ddeall digon er mwyn cadw'r sgwrs i fynd yn annibynnol. Nid oes fawr o dystiolaeth yn y data bod angen help arbennig ar y dysgwyr i gadw'r sgwrs i fynd. Fodd bynnag, fel yn achos lefel A1, ni ellir cynnig barn gadarn, am fod amheuaeth ynghylch pa mor ddigymell yw'r siarad.

7.8. Mae lefel **B1** yn ymestyn y parth ar gyfer rhyngweithio – yn cwmpasu diddordebau a 'meysydd proffesiynol' penodol y siaradwyr o hyd, ond yn ymestyn o faterion arferol/rheolaidd yn unig i rai llai arferol/rheolaidd. Mewn perthynas â phynciau cyfarwydd a pherthnasol i fywyd dydd-i-ddydd, mae gofyn i siaradwyr gymryd rhan mewn sgyrsiau heb fod angen paratoi ymlaen llaw. Ni waeth a yw'r sgyrsiau enghreifftiol dan sylw yn wirioneddol ddigymell ai peidio, mae'r ymgeiswyr wedi'u paratoi'n drylwyr ar gyfer yr arholiadau. Nid oes elfen yn yr arholiadau llafar ble nad oes gan ymgeiswyr fawr o syniad o gwbl beth fydd yn codi.

7.9. Mae'r disgrifydd yn ymestyn i gysyniadau mwy haniaethol, rhai diwylliannol yn benodol, e.e. siarad am lyfrau, cerddoriaeth, ac ati. Mae'r sgyrsiau enghreifftiol yn symud i'r cyfeiriad hwn, wrth fynegi barn am bynciau fel dwyieithrwydd neu ddathliadau. O ran sefyllfaoedd penodol, mae'n gofyn gallu i ymdrin â'r rhan fwyaf o sefyllfaoedd sy'n debygol o godi wrth deithio. Nid yw'r rhan hon o bosib mor berthnasol i sefyllfa'r Gymraeg, ond dadleuir nad yw arholiadau llafar TGAU yn rhoi digon o gyfle i ymgeiswyr arddangos hyfedredd ar draws llawer o wahanol sefyllfaoedd. Mae'r pynciau'n amrywio, ond fel nodwyd eisoes, mae'r ffwythiannau cyfathrebu y mae disgwyl i ymgeiswyr eu harfer yn yr arholiadau yn gyfyng braidd.

7.10. Mae lefel B1 hefyd yn gofyn am y gallu i gyfnewid, gwirio a chadarnhau gwybodaeth fel strategaethau cyfathrebu. Mae llawer o gyfnewid gwybodaeth, wrth i'r siaradwyr gyfeirio at y sbardunau a chyfnewid barn. Fodd bynnag, nid oes gwirio a chadarnhau gwybodaeth mewn

gwirionedd, ond tybir nad yw hynny am fod y rhyngweithio'n llifo mor rhwydd, ond am nad yw'n ddigymell.

7.11. At ei gilydd, nid yw'n ymddangos bod y sgyrsiau enghreifftiol yn cyrraedd lefel B1. Gellir ystyried eu bod yn ymgyrraedd at hynny; mae elfennau o'r arholiadau llafar yn cyffwrdd â rhai o'r elfennau yn y disgrifyddion, yn arbennig wrth fynd y tu hwnt i'r arferol/rheolaidd o fewn cwmpas diddordebau a 'meysydd proffesiynol' penodol y siaradwyr, a hefyd wrth geisio ymestyn i bynciau ychydig yn fwy haniaethol. Fodd bynnag, dadleuir nad oes prawf o allu'r ymgeiswyr i ryngweithio ar bynciau heb fawr ddim paratoi.

7.12. I grynhoi, er bod elfennau o lefel B1 o ran rhyngweithio yng nghymhwyster TGAU, lefel A2 yw'r uchaf y teimlir y gall ymgeiswyr ei gyrraedd. Fodd bynnag, mae'n anodd mynegi barn yn iawn ynghylch a yw'r cymhwyster yn cyrraedd A1 neu A2 am fod angen rhagor o dystiolaeth ynghylch gallu gwirioneddol ymgeiswyr i siarad yn ddigymell.

8. Casgliadau a Thrafodaeth

8.1. Mae'r dadansoddiad uchod yn ceisio mapio hyfedredd llafar ymgeiswyr TGAU Cymraeg Ail Iaith mewn theori, yn arbennig drwy lens darpariaeth Cymraeg i Oedolion. Mae'n gwneud hynny drwy amlinellu cynnwys yr arholiadau llafar TGAU, mapio'n fras rai o'r cymwyseddau iaith y gellir ystyried y dylai ymgeiswyr TGAU feddu arnynt er mwyn llwyddo yn yr arholiadau llafar, a cheisio lleoli enghreifftiau o ymatebion i dasgau'r arholiadau llafar ar Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop (CEFR). Mae'r olaf o ddiddordeb am fod darpariaeth Cymraeg i Oedolion wedi'i mapio ar y Fframwaith hwn.

8.2. Noder bod TGAU Cymraeg Ail Iaith yn dra gwahanol i ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion, a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn benodol, yn yr ystyr bod maes llafur gan y Ganolfan, sy'n cael ei roi ar waith mewn cwrslyfrau ar gyfer pob lefel unigol. Mae'r cwrslyfrau'n cyflwyno cymwyseddau iaith a chyfathrebu penodol i ddysgwyr eu meistroli. Yn achos TGAU, ychydig o gyfarwyddyd penodol a geir yn yr ystyr hon.

8.3. Un o sgileffeithiau hyn o bosib ydy amrywiaeth yn y strwythurau sy'n cael eu haddysgu rhwng un sefydliad addysgu a'r llall, yn enwedig mewn perthynas â'r patrymau gramadegol hynny ble mae amrywio rhwng iaith lafar gwahanol ardaloedd neu rhwng yr iaith lafar a'r iaith ysgrifenedig. Gwnaed y penderfyniad amser yn ôl yn sector Cymraeg i Oedolion, gan ddechrau gyda Chymraeg Byw, y byddai ffurfiau penodol yn cael eu haddysgu fel iaith bontio tan fyddai dysgwyr yn ddigon hyfedr i allu ymdopi ag amrywio ieithyddol. Un o'r ystyriaethau o ran llunio darpariaeth ar gyfer dysgwyr ôl-TGAU fydd i ba raddau maen nhw'n gyfarwydd â'r patrymau penodol y mae Cymraeg i Oedolion yn eu defnyddio, ac a fydd angen peth amser a chymorth i ymgyfarwyddo â'r rhain.

8.4. Un o'r meysydd ble mae TGAU a darpariaeth Cymraeg i Oedolion yn debyg ydy'r pwyslais ar lafaredd a rhyngweithio. Mae'n glir bod awydd i wella sgiliau llafaredd o fewn cymhwyster TGAU a bod dealltwriaeth bod hynny'n hanfodol ar gyfer caffael iaith yn llwyddiannus. Mae hynny'n cael ei ddatgan yn glir yn y maes llafur, y fanyleb ac mewn adroddiadau arholwyr. Fodd bynnag, nid yw'n eglur a yw'r awydd hwn yn cael ei wireddu'n ymarferol, am fod amheuaeth ynghylch y graddau y mae'r arholiadau llafar yn rhoi cyfle i ymgeiswyr siarad yn ddigymell. Trafodir hyn mewn mwy o fanylder isod.

8.5. Mae'r canfyddiadau ar gyfer lefelau'r CEFR yn ôl y graddfeydd penodol a ystyriwyd wedi'u crynhoi yn Nhabl 3. Gwelir bod peth amrywio rhwng y graddfeydd, gydag amrediad rhwng A1 a B1. Nid yw hynny ynddo'i hun yn annisgwyl. Un o gryfderau'r CEFR yw y gall oleuo rhywfaint ar y

gwahaniaethau hyfedredd rhwng y gwahanol sgiliau a chymwyseddau. Gall hynny amlygu'r meysydd ble gallai fod angen rhoi mwy o sylw er mwyn codi hyfedredd ar y raddfa honno.

Tabl 3: Lefelau a bennwyd ar gyfer 5 o raddfeydd y CEFR

	Cywirdeb gramadegol	**Ystod geirfa**	**Rheolaeth dros eirfa**	**Rhuglder**	**Rhyngweithio**
Lefel	B1	A2/B1	A2	A1/A2	A1/A2

8.6. Mae peth amwysedd ynghylch tri o'r graddfeydd, ble mae dwy lefel wedi'i nodi. Nid yw hyn yn annisgwyl, oherwydd pwysleisir yn y CEFR ei hun mai dewis pragmataidd ydy rhannu'r graddfeydd yn lefelau ar wahân ond mewn difrif nad dyna hanfod hyfedredd iaith. Defnyddia'r CEFR ddelwedd enfys ble mae'r lliwiau y siaradwn amdanynt fel categorïau ar wahân mewn difrif yn llifo i'w gilydd mewn un sbectrwm neu gontinwwm. Tebyg iawn ydy lefelau'r CEFR (Cyngor Ewrop, 2020). Felly gellid ystyried, er enghraifft, bod Ystod Geirfa rhywle ar y ffin rhwng A2 a B1.

8.7. Dylid pwysleisio mai dangosol ydy'r lefelau hyn, ac nad oedd modd dilyn y dull manwl a amlinellir yn llawlyfr y CEFR (Cyngor Ewrop, 2009) ar gyfer mapio cynnwys cymhwyster i'r Fframwaith. Yn wir, nid dyma oedd prif ddiben yr ymchwil, ond cynnig arweiniad i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ar gyfer llunio darpariaeth i ddysgwyr ôl-TGAU.

8.8. Gwelir mai tua lefel B1 a farnwyd ar gyfer y raddfa cywirdeb gramadegol. Mae hyn yn cyfateb yn fras i lefel Canolradd Cymraeg i Oedolion. Mae'n ddiddorol nodi bod edefyn cyntaf y dadansoddiad mewn perthynas â gramadeg (a oedd yn crynhoi'r patrymau gramadegol sy'n codi yn y data) ond wedi canfod ychydig iawn o batrymau ar lefel Canolradd. Nid yw'r ddau ganfyddiad hwn yn gwrthddweud ei gilydd o anghenraid. Roedd edefyn cyntaf y dadansoddiad yn ffordd o ystyried y cwmpas neu ystod patrymau gramadegol, a'r dadansoddiad seiliedig ar y CEFR yn ystyried rheolaeth dros y patrymau hyn. Awgryma hyn fod rheolaeth dda dros y patrymau gramadegol hynny sy'n cael eu harfer yn y data. Mae hynny'n cynnwys prif elfennau lefel Mynediad a llawer o elfennau Sylfaen. Noder ar y cyfan mai prin iawn roedd diffyg rheolaeth dros batrymau gramadegol yn amharu ar y cyfathrebu.

8.9. Noder hefyd o ran ystod, bod natur y cymhwyster yn llywio'r iaith sy'n cael ei chaffael tuag at batrymau gramadegol defnyddiol ar gyfer gweithgareddau a ffwythiannau cyfathrebu penodol. Mae'r rhain yn cynnwys cyfeirio at destun (ysgrifenedig/llun neu sain), mynegi a chyfiawnhau barn, a holi barn. Drwy gyfeirio at destun, er enghraifft, ceir cyfle i gyflwyno cymalau enwol gyda *bod* (*Dw i'n meddwl bod chwaraeon yn bwysig*). Drwy fynegi barn ceir cyfle i lunio brawddegau gydag ansoddeiriau (*Mae gwaith cartref yn ofnadwy*). Mae cyfiawnhau barn yn gofyn ymestyn gan roi rhywfaint o wybodaeth bersonol a chyd-destunol, ble nad yw mor hawdd rhagweld pa batrymau gramadegol fydd yn codi. Er enghraifft, yn nhrawsgrifiad 4 ceir y canlynol:

Dwi'n meddwl achos ein bod ni'n mewn blwyddyn naw, cyn bo hir bydd angen dewis ein opsiynau. Felly does dim rhaid gwneud chwaraeon. Ond i fi, mae'n bwysig.

Mae hyn yn gofyn gallu i ddefnyddio iaith mewn ffordd fwy creadigol a chynhyrchiol, ac yn awgrymu lefel uwch o hyfedredd. Yn olaf, trwy holi barn, ceir cyfle i ddefnyddio rhywfaint o batrymau cwestiwn (*Beth wyt ti'n meddwl am y clip fideo?*)

8.10. Mewn perthynas â geirfa, gwelir bod y graddfeydd ar gyfer ystod geirfa a rheolaeth dros eirfa yn gymharol debyg, ond bod yr ystod o bosib yn sgorio'n uwch na rheolaeth. Fel yn achos patrymau gramadegol, mae'r gofynion ar gyfer yr arholiad o ran gweithgareddau a ffwythiannau cyfathrebu yn llywio i raddau y mathau o eirfa mae ei hangen i lwyddo yn yr arholiad. Mae angen berfenwau i gyfeirio at y testun, mae angen ansoddeiriau (*ofnadwy, diddorol*, ayb.) a berfau (*anghytuno, meddwl*) i fynegi barn. Ni welwyd hyn yn y sgyrsiau enghreifftiol, ond yn y data ehangach mae enghreifftiau o siartiau a graffiau, sy'n gofyn gallu defnyddio geirfa ystadegol.

8.11. Un pwynt i'w nodi ydy ei bod yn anodd rhagweld pa feysydd yn union fydd yn codi yn yr arholiadau, ac felly bod angen geirfa gymharol eang er mwyn llwyddo. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos ymgeiswyr sydd am ymestyn a chyrraedd y graddau uwch. Y mae ffocws ar dair thema eang drwy'r cymhwyster, ond mae'r themâu hyn yn eang, ac mae geirfa amrywiol iawn a allai godi ohonynt.

8.12. Ar y llaw arall, wrth ystyried beth mae'r dysgwyr yn gallu'i wneud gyda'r eirfa, teimlid bod yr arholiad yn cyfyngu rywfaint ar ymgeiswyr am fod y ddwy uned yn debyg iawn o ran y gweithgareddau a'r ffwythiannau cyfathrebu. Da o beth, er enghraifft, fyddai cael syniad o hyfedredd mewn perthynas â geirfa fwy sylfaenol o bosib. Fel gwelwyd yn y dyfyniad o astudiaeth Rhys a Smith (2022), efallai bod cymhwyster TGAU yn paratoi dysgwyr ar gyfer mathau penodol o iaith yn seiliedig ar ddisgwyliadau'r parth addysg ond heb gyffwrdd ag iaith fwy sylfaenol sy'n berthnasol i anghenion dydd-i-ddydd y dysgwyr. Mae hon yn ystyriaeth i'w harchwilio ymhellach.

8.13. Ond mae hyn tanlinellu'r angen am ddealltwriaeth well o beth yn union a olygir gan iaith 'sylfaenol' a rhai o'r termau allweddol eraill a ddefnyddir yn y CEFR. Beth ddylid ei ystyried yn 'bynciau cyfarwydd'? Beth sy'n berthnasol i ddysgwyr? Mae hyn yn gysyniad creiddiol yn y CEFR – y dylid dylunio cwricwlwm yn seiliedig ar ddealltwriaeth o anghenion y dysgwyr. Dylai hynny hwyluso rhoi'r graddfeydd ar eirfa ar waith.

8.14. Un peth sy'n amlwg o edrych ar Dabl 3 yn crynhoi'r lefelau ar gyfer graddfeydd y CEFR ydy bod cymwyseddau iaith cyffredinol tebygol dysgwyr ar y cyfan yn uwch na'u cymwyseddau llafar ymarferol. Hynny yw, mae'r graddfeydd sy'n ymwneud â gramadeg a geirfa yn sgorio'n uwch na'r graddfeydd rhuglder a rhyngweithio. Awgryma hyn fod dysgwyr o bosib yn cael eu paratoi'n fwy trylwyr mewn perthynas â sgiliau penodol ieithyddol nag y maent mewn perthynas â sgiliau rhyngweithio a siarad yn ddigymell. Yn wir, bu hon yn feirniadaeth o addysgu Cymraeg Ail Iaith yn fwy cyffredinol. Gweler, er enghraifft, astudiaeth Beard (2020, 2016) a ganfu, er mor ganolog yw sgiliau cyfathrebu yng ngweledigaeth Llywodraeth Cymru, nad oedd yr addysgeg a ddefnyddid yn yr ysgolion a arsylwyd o reidrwydd yn hybu datblygiad cymhwysedd cyfathrebu.

8.15. Fodd bynnag, dylid pwysleisio yn arbennig yn achos Rhuglder a Rhyngweithio, pa mor anodd oedd lleoli'r enghreifftiau dan sylw ar y graddfeydd o gwbl, am yr ystyriwyd nad oedd y siarad yn y sgyrsiau enghreifftiol yn wirioneddol ddigymell. Nid yw'n glir, felly, pa mor ddibynadwy yw'r lefelau a ddynodwyd ar gyfer y graddfeydd hyn. Mae'n bosib bod lefel rhyngweithio llafar a rhuglder myfyrwyr TGAU at ei gilydd yn uwch (neu'n is) nag A1/A2, ond nid yw hynny i'w weld yn glir yn y data.

8.16. Noder nad yw hyn yn unigryw i gyd-destun Cymraeg Ail Iaith. Yn eu hastudiaeth o gymwysterau TGAU Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg drwy lens y CEFR, canfu Curcin a Black sefyllfa debyg, lle nad oedd y cymwysterau'n cynnig cyfle i asesu rhai sgiliau hanfodol ar gyfer cyfathrebu:

the assessments themselves provide little evidence of some of the skills essential for communicative language competence, such as ability to engage in meaningful interaction. In a sense, it may be

more appropriate to say that, overall, candidates achieving each of the GCSE grades possess most, but not all, of the skills and knowledge required of the CEFR level assigned in this linking exercise (Curcin & Black, 2019: 9)

8.17. Serch hynny, gellid rhagdybio bod y darlun sy'n debygol o ddod i'r amlwg yn un ble mae cymwyseddau iaith yn gyffredinol yn uwch na chymwyseddau cyfathrebu. Byddai hynny'n cyd-fynd â rhai o gasgliadau Beard yn yr astudiaeth a grybwyllir uchod. Noda Beard mai maes llafur iaith-gyfeiriedig a ddefnyddid ar gyfer yr addysgu a arsylwyd, yn cynnwys deunydd yn seiliedig ar eirfa a strwythurau iaith, a bod "unrhyw bwyslais ar gyfathrebu ystyrlon drwy ryngweithio a defnyddio strwythurau iaith mewn modd integredig a digymell yn absennol yn gyffredinol yn y gwersi a arsylwyd ... Canolbwyntiai gweithgareddau ar feistroli ystod gyfyng iawn o strwythurau iaith a geirfa drwy fabwysiadu addysgeg drafodaethol o fewn cyd-destun cul" (Beard, 2020: 20). Astudio'r addysgeg a wnaeth Beard mewn nifer fechan o ysgolion, ac nid ystyried y cymhwyster, felly dylid gochel rhag gorgyffredinoli. Fodd bynnag, byddai hyn yn drywydd ymchwil diddorol yn y dyfodol.

8.18. At hynny, os nad yw'r arholiadau llafar eu hunain yn asesu sgiliau rhyngweithio a rhuglder yn drylwyr, mae'n bosib bod hynny'n cael effaith ar yr addysgu a'r sgiliau a'r cymwyseddau y mae'r myfyrwyr yn eu caffael. Yn ôl cysyniad adlif (*washback*) neu effaith (*effect*) asesiad, nid yw asesiadau a chaffaeliad cymwyseddau yn annibynnol ar ei gilydd – mae asesu'n helpu i siapio'r addysgu a'r dysgu drwy osod targedau a disgwyliadau (ar adlif gweler Tavakoli & Jones (2018) a Weir (2005b), ac ar effaith gweler Davidson & Fulcher, 2007).

8.19. I grynhoi, er nad yw'n gwbl glir o'r data a arsylwyd yn yr astudiaeth hon bod cymwyseddau rhyngweithio a rhuglder yn debygol o fod ar lefel is na chymwyseddau pur ieithyddol, byddai'n rhesymol tybio bod hynny'n wir o ystyried y dystiolaeth ehangach sydd ar gael. Mae cam nesaf yr ymchwil wedi'i ddylunio i daflu rhagor o oleuni ar hyn, drwy gyfweld â dysgwyr sydd newydd gyflawni TGAU ac asesu eu sgiliau llafar yn ôl graddfeydd y CEFR.

8.20. Ni ellir casglu bod modd lleoli dysgwyr ifanc sydd wedi cyflawni TGAU Cymraeg Ail Iaith mewn un lle penodol o fewn y ddarpariaeth i oedolion. Mae llu o ffactorau'n effeithio ar gyrhaeddiad unigolion, gan gynnwys cymhelliant, cyfleoedd i ymarfer ac ati. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn amlygu'r agweddau a allai fod yn heriol i ddysgwyr sy'n ymuno â chwrs yn y sector oedolion, a'r cyfleoedd i adeiladu ar y sgiliau iaith sydd ganddynt yn barod.

Llyfryddiaeth

ap Emlyn, N., 2007. Golwg ar iaith. Y Ganolfan Astudiaethau Addysg, Aberystwyth.

ap Emlyn, N., 2003. Y chwiliadur iaith. Y Ganolfan Astudiaethau Addysg, Aberystwyth.

Beard, A., 2020. Addasrwydd y ddarpariaeth Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg at gynhyrchu siaradwyr yr iaith. Cylchgrawn Addysg Cymru 22. https://doi.org/10.16922/wje.22.2.1

Beard, A.C., 2016. Addysg Gymraeg ail iaith mewn Ysgolion cyfrwng-Saesneg Astudiaeth i archwilio i ba raddau y mae amodau dysgu'r rhaglen Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 yn gymwys i gynhyrchu siaradwyr yr iaith. Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Breese, N., Clement, B., 2014a. Seren Iaith 2: Llawlyfr Adolygu Cywiro Iaith. Atebol.

Breese, N., Clement, B., 2014b. Seren Iaith: Llawlyfr adolygu cywiro iaith, 2il ed. Atebol, Llanfihangel Genau'r Glyn.

CBAC, 2020. TGAU CBAC Cymraeg Ail Iaith: Manyleb.

CBAC, 2019. TGAU Adroddiadau Arholwyr: Cymraeg Ail Iaith. CBAC.

CBAC, 2018. TGAU Adroddiadau Arholwyr: Cymraeg Ail Iaith. CBAC.

CBAC, 2017. TGAU Cymraeg Ail Iaith: Deunyddiau Asesu Enghreifftiol 78.

CBAC, n.d. TGAU CBAC Cymraeg Ail Iaith: Canllaw Addysgu.

Curcin, M., Black, B., 2019. Investigating standards in GCSE French, German and Spanish through the lens of the CEFR. Ofqual.

Cyngor Ewrop, 2020. Common European Framework of Reference for Languages: Learning, teaching, assessment - Companion volume. Council of Europe Publishing, Strasbourg.

Cyngor Ewrop, 2009. Relating Language Examinations to the Common European Framework of Reference for Languages: Learning, Teaching, Assessment (CEFR).

Cyngor Ewrop, 2001. Common European Framework of Reference for Languages: Learning, teaching, assessment. Cambridge University Press, Caergrawnt.

Davidson, F., Fulcher, G., 2007. The Common European Framework of Reference (CEFR) and the design of language tests: A matter of effect. Lang. Teach. 40, 231–241.

Edelsky, C., 1981. Who's Got the Floor? Language in Society 10, 383–421.

Estyn, 2004. Arolwg o'r Gymraeg fel Ail Iaith yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 a'r Cyfnod Pontio.

Green, A., 2014. Cysylltu Arholiadau Cymraeg i Oedolion â Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer Ieithoedd (CEFR). CBAC.

Heinz, B., 2003. Backchannel responses as strategic responses in bilingual speakers' conversations. Journal of Pragmatics 35, 1113–1142.

Hopwood, M., 2014a. Can Canllaw 1. Canolfan Peniarth.

Hopwood, M., 2014b. Can Canllaw 2. Canolfan Peniarth.

Keddle, J.S., 2004. The CEF and the Secondary School Syllabus, in: Insights from the Common European Framework. Oxford University Press, 43–54.

Lippi-Green, R., 2011. English with an Accent: Language, Ideology and Discrimination in the United States. Routledge.

Llywodraeth Cymru, 2017. Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr. Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru, 2015. Cymraeg Ail Iaith yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru.

Llywodraeth Cymru, 2013. Un Iaith i bawb: Adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4 - Adroddiad ac argymhellion. Llywodraeth Cymru.

Milroy, J., 2001. Language ideologies and the consequences of standardization. Journal of Sociolinguistics 5, 530–555.

Morris, S., Meara, P., 2019a. Geirfa Graidd Lefel Mynediad [WWW Document]. URL https://www.wjec.co.uk/umbraco/surface/blobstorage/download?nodeId=14881 (cyrchwyd ddiwethaf 7.21.22).

Morris, S., Meara, P., 2019b. Geirfa Graidd Lefel Sylfaen. https://www.wjec.co.uk/umbraco/surface/blobstorage/download?nodeId=14887 (cyrchwyd ddiwethaf 7.21.22).

Morris, S., Meara, P., Fitzpatrick, T., 2019. Geirfa Graidd Lefel Canolradd. https://questionbank.wjec.co.uk/qualifications/welsh-for-adults/welsh-for-adults-intermediate/Geirfa%20Canolradd%20Ionawr%202019.pdf?language_id=2 (cyrchwyd ddiwethaf 7.21.22)
Northey, S., 2015. Dim Gobaith Caneri. Gwasg Carreg Gwalch.
Rhys, M., Smith, K., 2022. "Everything we do revolves around the exam": What are students' perceptions and experiences of learning Welsh as second language in Wales? WJE 24.
Sacks, H., Schegloff, E.A., Jefferson, G., 1974. A Simplest Systematics for the Organization of Turn-Taking for Conversation 50, 696–735.
Schegloff, E.A., Jefferson, G., Sacks, H., 1977. The Preference for Self-Correction in the Organization of Repair in Conversation. Language 53, 361–382.
Tavakoli, P., Jones, R., 2018. Trosolwg o ymagweddau at gaffael ail iaith ac arferion addysgol. Llywodraeth Cymru.
Weir, C.J., 2005a. Limitations of the Common European Framework for developing comparable examinations and tests 281–300.
Weir, C.J., 2005b. Language Testing and Validation: An Evidence-based Approach.
Wray, A., 2002. Formulaic Language and the Lexicon. Cambridge University Press.

Atodiad 1: Taflen gofnodi enghreifftiol ar gyfer Uned 1 arholiad TGAU

TGAU CYMRAEG AIL IAITH Deunyddiau Asesu Enghreifftiol 10

UNED 1: Prawf A **TAFLEN GOFNODI'R YMGEISYDD** (Ni fydd y daflen hon yn cael ei marcio/*This sheet will not be marked*)

	SARA	NIA	GWEN	GWYBODAETH YCHWANEGOL
1. Problemau yn yr ysgol. Pa wers?				
Mathemateg				
Celf				
Hanes				
2. Mae'r merched yn cwyno. Pam?				
Gwaith cartref				
Colli amser cinio				
Rheolau				
3. Barn y merched am waith cartref?				
Gwastraff amser				
Syniad da				
Gormod o Saesneg a mathemateg				
Eisiau banio				
4. Barn y merched am y gwersi?				
Eisiau mwy o wersi chwaraeon				
Eisiau llai o wersi gwyddoniaeth				
Dim yn deall cemeg a ffiseg				
5. Hoffi astudio yn y dyfodol?				
Sbaeneg a Rwseg				
Drama				
6. Pwyntiau positif y merched				
Gwyddoniaeth yn bwysig – eisiau bod yn nyrs				
Chwaraeon yn helpu gofalu am y corff				
Chwaraeon yn dysgu sgiliau tîm				

© WJEC CBAC Cyf.

O'r Deunyddiau Asesu Enghreifftiol (CBAC, 2017: dim rhif tudalen).

Atodiad 2: Deunydd sbardun enghreifftiol ar gyfer Uned 2 arholiad TGAU

TGAU CYMRAEG AIL IAITH Deunyddiau Asesu Enghreifftiol 24

Ein Planed

Dw i ddim yn poeni am broblemau'r byd – dydy sbwriel ac ailgylchu ddim yn broblem yn fy marn i. Mae'r teulu yn helpu i glirio yn y dre ac ar y traeth bob mis.

Ysgol Werdd Aur Gold Green School

Eco-Sgolion

Pwynt pwysig.

Mae ystadegau 2015/16 yn dangos bod y 22 awdurdod lleol yn ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio tua 60% o'u gwastraff, 4% yn uwch na ffigurau 2015 a 30% yn fwy na 2006. Mae'r ffigur hefyd yn 2% yn uwch na'r Targed Ailgylchu sef 58%.

Ailgylchu yng Nghymru
2015-16

60%
o wastraff wedi ei ailgylchu

170,567
tunnell o wastraff i safleoedd tirlenwi

70% yw'r targed ailgylchu erbyn 2025

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

© WJEC CBAC Cyf.

O'r Deunyddiau Asesu Enghreifftiol (CBAC, 2017: dim rhif tudalen)

Atodiad 3: Mat help gyfer Uned 1 arholiad TGAU

CARDYN HELP TRAFOD GRŴP

cbac wjec

Defnyddiwyd y mat help canlynol wrth baratoi ar gyfer y dasg uchod

Cyngor (*Advice*)
1. **Meddyliwch am y clip fideo yn ofalus cyn dechrau** (*Think about the video clip carefully before starting*)
2. **Siaradwch gyda'ch gilydd** *(Talk together)*
3. **Cynlluniwch gyda'ch gilydd** *(Plan together)*
4. **Gwrandewch ar eich gilydd** *(Listen to each other)*
5. **Helpwch eich gilydd** *(Help each other)*
6. **Byddwch yn deg i'ch gilydd** *(Be fair to each other)*

Wyt ti'n cytuno? *Do you agree?*

Beth ydy dy farn di? *What's your opinion?*

Beth wyt ti'n meddwl? *What do you think?*

Beth amdanat ti? *What about you?*

Oes barn gyda ti? *Have you got an opinion?*

Oes rheswm gyda ti? *Have you got a reason?*

Pam wyt ti'n cytuno? *Why do you agree?*

Pam wyt ti'n anghytuno? *Why do you disagree?*

Oes syniad arall gyda ti? *Have you got another idea?*

Oes syniadau eraill gyda ti? *Have you got other ideas?*

Unrhyw beth arall? *Anything else?*

Beth arall? *What else?*

Rydw i'n / Dw i'n cytuno gyda *I agree with*
Dw i ddim yn cytuno gyda *I don't agree with*
Dw i'n anghytuno gyda *I disagree with*
Dw i'n meddwl bod *I think that*
Dw i'n hoffi / mwynhau *I like / enjoy*
Mae'n well gyda fi *I prefer*
Mae'n gas gyda fi *I hate*

Mae gen i____/ Mae____gyda fi *I have got*
Does gen i ddim / Does dim____gyda fi : *I haven't got*
Fy hoff____ydy____ *My favourite ____is ____*
Ein hoff____ydy _ *:Our favourite ____is ____*

Roeddwn i'n arfer *I used to*
Roedd yn____ *It was _____*
Es i *I went* **Aethon ni** *We went*
Ces i *I had* **Cawson ni** *We had*
Gwyliais i / Chwaraeais i *I watched / I played*

Bydda i'n *I will* (Bydda i'n mynd i'r traeth)
Bydd yn *It will be*
Baswn i'n *I would* (Baswn i'n hoffi sgio)
Baswn i'n dewis *I would choose*
Baswn i'n awgrymu *I would suggest*
Faswn i ddim *I wouldn't*
Hoffwn i *I would like* (Hoffwn i syrffio)
Hoffwn i awgrymu *I would like to suggest*
Hoffwn i ddysgu *I'd like to learn*

Cyfeirio at y clip fideo
(*Refering to the video clip*)

Roedd____yn dweud _____ *was saying*
Mae____yn dweud _____ *is saying*
Ym marn_____ *In_____'s opinion*
Yn ôl _____ *According to_____*
Mae_____yn meddwl bod _____ *thinks that*

Roeddwn i'n cytuno gyda *I agreed with*
Doeddwn i ddim yn cytuno gyda *I didn't agree with*

Roedd syniad da gyda____yn y clip fideo
____had a good idea on the video clip
Roedd y clip yn achos _____
The clip was____because_____

syniad da / syniad gwych / syniad twp
a good suggestion / a great suggestion / a stupid suggestion
Pam lai! / Pam ddim! *Why not!*
Beth yw'r ots? *Who cares?*
Beth yw'r pwynt? *What's the point?*
Dim gobaith *Not a hope*
efallai *maybe / perhaps*
weithiau *sometimes*
byth *never* **felly** *therefore / so*
chwaith *either* **yn enwedig** *especially*
yn aml *often* **fel arfer** *usually*
o dro i dro *from time to time*

7

O'r Canllaw Addysgu (CBAC, dim dyddiad)

Atodiad 4: Graddfeydd y CEFR

Communicative Language Activities and Strategies				Plurilingual & Pluricultural Competence	Communicative Language Competences		
Reception	**Production**	**Interaction**	**Mediation**		**Linguistic Competence**	**Sociolinguistic Competence**	**Pragmatic Competence**
1. Reception Activities a. Oral Comprehension **i. Overall oral comprehension** **ii. Understanding conversation between other people** **iii. Understanding as a member of a live audience** **iv. Understanding announcements and instructions** v. **Understanding audio (or signed) media and recordings** b. Audio-visual comprehension **i. Watching TV, film and video** c. Reading comprehension **i. Overall reading comprehension** **ii. Reading correspondence** **iii. Reading for orientation** **iv. Reading for information and argument** **v. Reading instructions** vi. **Reading as a leisure activity** 2. Reception Strategies **i. Identifying cues and inferring**	1. Production Activities a. Oral production **i. Overall oral production** **ii. Sustained monologue: describing experience** **iii. Sustained monologue: giving information** **iv. Sustained monologue: putting a case** **v. Public announcements** **vi. Addressing audiences** b. Written production **i. Overall written production** **ii. Creative writing** **iii. Reports and essays** 2. Production Strategies **i. Planning** **ii. Compensating** **iii. Monitoring and repair**	1. Interaction Activities a. Oral interaction **i. Overall oral interaction** **ii. Understanding an interlocutor** **iii. Conversation** **iv. Informal discussion** **v. Formal discussion** **vi. Goal-oriented co-operation** **vii. Obtaining goods and services** **viii. Information exchange** **ix. Interviewing and being interviewed** **x. Using telecommunications** b. Written interaction **i. Overall written interaction** **ii. Correspondence** **iii. Notes, messages and forms** c. Online interaction **i. Online conversation and discussion** **ii. Goal-oriented online transactions and collaborations** 2. Interaction Strategies **i. Turntaking** **ii. Co-operating** **iii. Asking for clarification**	1. Mediation activities a. Mediating a text **i. Relaying specific information** **ii. Explaining data** **iii. Processing text** **iv. Translating a written text** **v. Note-taking** **vi. Expressing a personal response to creative texts** **vii. Analysis and criticism of creative texts** b. Mediating concepts i. Collaborating in a group 1. **Facilitating collaborative interaction with peers** 2. **Collaborating to construct meaning** ii. Leading group work 1. **Managing interaction** 2. **Encouraging conceptual talk** c. Mediating communication **i. Facilitating pluricultural space** **ii. Acting as an intermediary** **iii. Facilitating communication in delicate situations and disagreements** 2. Mediation strategies a. Strategies to explain a new concept **i. Linking to previous knowledge** **ii. Adapting language** **iii. Breaking down complicated information** b. Strategies to simplify a text **i. Amplifying a dense text** **ii. Streamlining a text**	1. **Building on pluricultural repertoire** 2. **Plurilingual comprehension** 3. **Building on plurilingual repertoire**	1. **General linguistic range** 2. **Vocabulary range** 3. **Grammatical accuracy** 4. **Vocabulary control** 5. **Phonological control** 6. **Orthographic control**	1. **Sociolinguistic appropriateness**	1. **Flexibility** 2. **Turntaking** 3. **Thematic development** 4. **Coherence and cohesion** 5. **Propositional precision** 6. **Fluency**

Yn seiliedig ar CEFR:2020 (Cyngor Ewrop, 2020), penodau 3, 4 a 5. Mae disgrifyddion ar gyfer pob un o'r penawdau yn y tabl mewn print bras.
Noder bod disgrifyddion yn y CEFR ar gyfer iaith arwyddion hefyd, ond nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yma.

